

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING	
PWYLLGOR GWAITH	THE EXECUTIVE	
DYDD MAWRTH 21 IONAWR 2025 10.00 o'r gloch	TUESDAY 21 JANUARY 2025 10.00 am	
YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM	COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGFNI AND VIRTUALLY VIA ZOOM	
Swyddog Pwyllgor	Ann Holmes 01248 752518	Committee Officer

AELODAU/MEMBERS

Plaid Cymru/The Party of Wales

Neville Evans, Carwyn E Jones, Dyfed Wyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group

Dafydd Roberts, Dafydd Rhys Thomas

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod

R H A G L E N

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

3 MATERION BRYS ARDYSTIWIYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

4 COFNODION (Tudalennau 1 - 18)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol: -

- 26 Tachwedd 2024
- 10 Rhagfyr 2024

5 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH (Tudalennau 19 - 28)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

6 CYLLIDEB REFENIW DRAFFT 2025/26 (Tudalennau 29 - 52)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

7 CARTREFI'R AWDURDOD LLEOL I BOBL HŶN - PENNU'R FFI SAFONOL 2025/26 (Tudalennau 53 - 56)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

8 GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL DI-BRESWYL YN Y GYMUNED – FFIOEDD A THALIADAU 2025/26 (Tudalennau 57 - 62)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

Y PWYLLGOR GWAITH

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd, 2024 yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithwir drwy Zoom

PRESENNOL:	Y Cynghorydd Gary Pritchard (Arweinydd) (Cadeirydd) Y Cynghorwyr Neville Evans, Dyfed Wyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams.
WRTH LAW:	Prif Weithredwr Dirprwy Brif Weithredwr Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (ar gyfer eitem 13) Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 14) Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (ar gyfer eitem 12) Pennaeth Democratiaeth Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid (ar gyfer eitem 6) Rheolwr Gwasanaethau Tai (Strategaeth, Comisiynu a Pholisi) (ELI) (ar gyfer eitem 14) Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rhaglen (GP) (ar gyfer eitem 6) Rheolwr Hamdden (OJ) (ar gyfer eitem 13) Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (MY) Swyddog Pwyllgor (ATH) Swyddog gweddarlledu (FT)
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorydd Carwyn Jones, Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, Marc B. Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
HEFYD BRESENNOL:	Y Cynghorwyr Douglas Fowlie, Glyn Haynes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, R, Llewelyn Jones, Derek Owen, Dylan Rees

1. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ac fe'u nodwyd.

2. DATGAN DIDDORDEB

Bu i'r Cynghorydd Gary Pritchard ddatgan diddordeb personol yn unig pan drafodwyd eitem 13 ar yr agenda (Cynllun Strategol Môn Actif).

3. MATERION BRYN A ARDYSTIWDYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG PENODEDIG

Dim i'w hadrodd.

4. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 22 Hydref, 2024 i'w cadarnhau.

Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith, a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2024, fel rhai cywir.

5. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2024 a mis Gorffennaf 2025 i'w gadarnhau.

Diweddarodd y Pennaeth Democratiaeth y Pwyllgor Gwaith ar eitemau a oedd yn newydd i'r Flaen Raglen Waith ynghyd â'r un eitem a aildrefnwyd sef y Cynllun Tuag at Sero Net a oedd i fod i gael ei gyflwyno i'w ystyried ym mis Mawrth 2025 ond sy'n cael ei aildrefnu ar gyfer dyddiad i'w gadarnhau. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Gwaith ymhellach fod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i dynnu o'r Rhaglen Waith gan ei fod yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac wedyn i'r Cyngor Llawn.

Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith a ddiweddarwyd ar gyfer y cyfnod rhwng Rhagfyr 2024 a Gorffennaf 2025 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.

6. MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 2 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid a oedd yn cynnwys y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 2 2024/25 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Roedd y cerdyn sgorio yn rhoi darlun o berfformiad y Cyngor yn erbyn yr amcanion strategol a amlinellir yng Nghynllun y Cyngor ar ddiwedd ail chwarter 2024/25.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Gary Pritchard, a thynnodd sylw at y ffaith fod mwyafrif (85%) y dangosyddion perfformiad gyda thargedau a gafodd eu monitro yn ystod y chwarter wedi perfformio'n dda yn erbyn targedau a bod ganddynt statws RAG Gwyrdd neu Felyn. Cyfeiriodd at y chwe dangosydd sydd ar hyn o bryd yn Goch neu Oren yn erbyn targedau, roedd y rhain mewn perthynas â meysydd o dan Addysg, Tai, yr Economi, Newid Hinsawdd ac Iechyd y Cyngor Cyfan. Darperir manylion am y camau lliniaru gyda'r nod o wella perfformiad pob un o'r chwe dangosydd yn yr adroddiad. Hefyd yn yr adroddiad ceir enghreifftiau o berfformiad nodedig yn y chwarter mewn perthynas â gwaith cymorth busnes, gofal cymdeithasol a llesiant gyda phob un o'r dangosyddion yn wyrdd yn erbyn targedau, presenoldeb ysgolion yn y sectorau cynradd ac uwchradd, nifer yr eiddo gwag a ddaeth yn ôl i ddefnydd drwy ymyriadau cartrefi gwag a'r gwaith sy'n parhau i drydaneiddio cerbydau fflyd y Cyngor.

Rhoddodd y Cynghorydd Douglas Fowlie, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol adborth ar adroddiad cerdyn sgorio Chwarter 2 2024/25 a ystyriwyd gan y pwyllgor yn ei gyfarfod ar 19 Tachwedd 2024. Ymhlith y materion a godwyd yn y drafodaeth oedd y rhesymau dros y gostyngiad mewn perfformiad o Chwarter 1 a'r rhagolygon am welliant parhaus erbyn diwedd y flwyddyn ariannol a gofynnodd yr aelodau am sicrwydd o hyn. Trafodwyd i ba raddau y mae sefyllfa ariannol y Cyngor a'r gorwariant a ragwelir ar ddiwedd Chwarter 2 yn risg wrth symud ymlaen, yn ogystal â thanberfformiad parhaus y dangosydd Tai (03) (nifer cyfartalog y diwrnodau calendr i osod unedau llety y gellir eu gosod ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) a oedd wedi bod yn destun adolygiad gan y pwyllgor sgriwtini. Holodd yr Aelodau a oedd heriau recriwtio yn rhwystr i sicrhau gwelliannau a chodwyd cwestiynau hefyd am reoli achosion o wahardd ac atal plant o ysgolion gan gynnwys y cymorth a ddarperir i ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd. Ar ôl cael cyngor gan swyddogion

ar y materion hyn, roedd y pwyllgor wedi penderfynu argymhell adroddiad y cerdyn sgorio a'r mesurau lliniaru fel yr amlinellwyd i'r Pwyllgor Gwaith ac roedd wedi cytuno ar gamau gweithredu atodol.

Cydnabu'r Pwyllgor Gwaith fod y Dangosydd Tai (03) wedi bod yn Goch yn erbyn y targed ers peth amser, ond nododd fod prinder contractwyr, peintwyr yn benodol, yn ffactor sy'n gyfrifol am fethu'r targed a nododd hefyd fod archwiliad manwl y pwyllgor sgrwtini ar y dangosydd a'r targed wedi dod i'r casgliad bod y Cyngor wedi gwneud pob ymdrech i wella'r perfformiad a bod y perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn yn well na pherfformiad llawer o awdurdodau eraill. Felly, awgrymwyd y gallai fod yn amserol adolygu'r targed i benderfynu a yw'n sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng bod yn uchelgeisiol a bod yn realistig.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Dangosydd Tai (03) yn parhau i gael ei fonitro a dywedodd fod angen i'r Cyngor fod yn uchelgeisiol ynglŷn â'r mater hwn o ystyried y ffigurau ar gyfer rhestrau aros am dai a'r rhai sy'n ddigartref ac ymrwymiad y Cyngor i ddarparu lle i gynifer o bobl â phosibl i'w alw'n gartref. Bydd yn gwneud ei orau i wella'r perfformiad ac yn dibynnu ar gynnydd, bydd yn ailedrych ar y mater maes o law.

Er bod perfformiad y dangosyddion Gofal Cymdeithasol a Llesiant yn cael ei gydnabod a'i ganmol, rhybuddiodd y Cynghorydd Alun Roberts, Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol y gallai misoedd y gaeaf fod yn heriol a'i fod, serch hynny, yn gobeithio y byddai'r lefel uchel o berfformiad yn cael ei gynnal.

Nododd y Pwyllgor Gwaith hefyd mewn perthynas â'r Dangosydd Addysg (07) - nifer y plant sy'n cael gwersi nofio ar hyd y flwyddyn - ei bod yn dod yn her i'r ysgolion cynradd hynny sy'n bell o'r canolfannau hamdden gyrraedd y targed a bod perfformiad 1,807 yn erbyn targed o 1,900 yn dderbyniol o dan yr amgylchiadau.

Penderfynwyd derbyn adroddiad monitro'r cerdyn sgorio ar gyfer Chwarter 2 2024/25 a nodi'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu hystyried a'u harchwilio er mwyn eu rheoli a sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol. Roedd y meysydd hyn yn gysylltiedig ag Addysg, Tai, yr Economi, Newid Hinsawdd a Pherfformiad y Cyngor Cyfan.

7. MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 2 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 2, 2024/25 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Thai a dangosodd fod y sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn yn dangos gorwariant o £504k (0.28%) ar y gyllideb refeniw. Fodd bynnag, gall y sefyllfa newid ac mae'r adroddiad yn nodi'r meysydd lle mae'r pwysau cyllidebol ar eu mwyaf mewn perthynas â gofal cymdeithasol plant ac oedolion oherwydd y galw cynyddol a chost y ddarpariaeth. Tynnodd y Cynghorydd Robin Williams sylw at y ffaith y gall cost lleoliad gofal cymdeithasol plant fod mor uchel â £500k y flwyddyn yn yr achosion mwyaf cymhleth sy'n dangos y math o bwysau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei reoli a'r angen felly am well cyllid i helpu awdurdodau lleol i ymateb i'r heriau hyn. Er bod y Cyngor wedi bod yn ddarbodus yn y ffordd y mae wedi rheoli ei gyllideb ac wedi defnyddio cronfeydd wrth gefn i sicrhau ei fod yn gosod cyllideb gytbwys bob blwyddyn, gofynnir i Lywodraeth Cymru gydnabod y baich ar awdurdodau lleol drwy gynyddu'r cyllid sydd ar gael fel y gellir parhau i ddiwallu anghenion allweddol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) y bydd yn rhaid i unrhyw orwariant yn y pen draw ar gyllideb refeniw 2024/25 ddod o gronfeydd wrth gefn y Cyngor a bydd hynny'n golygu y bydd goblygiadau ar gyfer pennu cyllideb 2025/26. Cadarnhaodd fod y dyfarniad cyflog ar gyfer staff nad ydynt yn addysgu ar gyfer 2024/25 wedi'i gytuno a'i fod yn cael ei

gynnwys yn fras gan y gyllideb ond mae cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ar gyfer pwysau chwyddiant ar gael i ychwanegu at gyllidebau yn ôl yr angen. Yn yr un modd, mae'r dyfarniad cyflog ar gyfer staff addysgu wedi'i setlo ac er y bydd Llywodraeth Cymru yn talu'r gost ychwanegol yn rhannol drwy grant, mae'r dyraniad i'w gadarnhau o hyd ac mae'n debygol y bydd yn rhaid i'r Cyngor ariannu'r gost ychwanegol i ysgolion o'r gronfa wrth gefn sydd wedi'i chlustnodi.

Cyfeiriodd y Swyddog Adran 151 at y pwysau cyllidebol ar ofal cymdeithasol plant ac oedolion sy'n dod i gyfanswm o tua £3.4m y bydd yn rhaid mynd i'r afael ag ef yng nghyllideb 2025/26. Mae hyn wedi'i wrthbwysu'n rhannol gan arbedion yn deillio o swyddi gwag staff a ffigurau incwm cadarn yng ngwasanaethau Hamdden a Phrifyrdd sydd, ynghyd â chostau is o dan benawdau corfforaethol a'r Dreth Gyngor, wedi dod â'r gorwariant cyffredinol a ragwelir i lawr i £504k. Gallai'r sefyllfa newid yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol a gall tywydd garw a'r galw cynyddol am wasanaethau dros fisoedd y gaeaf arwain at gostau ychwanegol i'r Cyngor. Bydd y sefyllfa'n parhau i gael ei monitro'n ofalus.

Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ar gyfer gwelliannau i Lyfryn Ffioedd a Thaliadau 2024/25 i gynnwys ffioedd newydd yn dilyn cyflwyno cynllun trwyddedu gorfodol o dan Ddeddf Iechyd Cyhoeddus Cymru 2017 ar gyfer ymarferwyr sy'n cyflawni gweithdrefnau arbennig, darperir manylion yn adran 8.

Penderfynwyd –

- **Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A, B ac C yr adroddiad mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2024/25.**
- **Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2024/25, y manylir arnynt yn Atodiad CH.**
- **Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro ar gyfer 2024/25 yn Atodiadau D a DD.**
- **Cytuno i weithredu'r Ffioedd a Thaliadau newydd ar gyfer 2024/25, a'r ffioedd a addaswyd, fel y manylir yn Atodiad E.**

8. MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF – CHWARTER 2 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol cyllideb gyfalaf y Cyngor ar ddiwedd Chwarter 2, 2024/25 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a dangosodd wariant gwirioneddol o £22.781m hyd at ddiwedd 30 Medi 2024, yn erbyn cyllideb gyfalaf o £72.477m gyda £2.84m arall o wariant wedi'i ymrwymo sy'n dod â'r cyfanswm i £25.585m neu 35% o'r gyllideb gyffredinol. Y gwariant a ragwelir hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol yw £66.980m sy'n rhoi tanwariant a ragwelir o £5.497m fel llithriad posibl i 2025/26, manylir arno yn nhabl 4.1 yr adroddiad. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2025/26 a bydd yn cael ei ystyried wrth baratoi Datganiad Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2025/26.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 at y cynlluniau grant gyfalaf yn y rhaglen gyfalaf ac at ddibyniaeth gynyddol y Cyngor ar gyllid grant i gefnogi gwaith gyfalaf. Cadarnhaodd fod mwyafrif y prosiectau yn mynd rhagddynt a'u bod ar y trywydd iawn i'w cwblhau o fewn y gyllideb a bod lefel y tanwariant wedi lleihau ond dywedodd y gall tywydd garw effeithio ar amserlenni a chyllidebau prosiectau yng nghyfnod y gaeaf Chwarter 3.

Cydnabu'r Pwyllgor Gwaith nad arian grant yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ariannu prosiectau oherwydd yr ansicrwydd ynghlwm â grantiau, ond roedd yn cydnabod amser, arbenigedd ac ymdrech Swyddogion i sicrhau'r grantiau ar gyfer yr amrywiaeth o brosiectau a gofnodwyd.

Penderfynwyd –

- **Nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2024/25 yn ystod Chwarter 2.**
- **Cymeradwyo'r cynlluniau ychwanegol gwerth £3.116m a ychwanegwyd i'r rhaglen gyfalaf yn ystod chwarter 2, a newidiadau yn y cyllid, yn unol ag Atodiad C, fydd yn rhoi cyllideb gyfalaf ddiwygiedig o £72.477m ar gyfer 2024/25.**
- **Cymeradwyo dwyn ymlaen unrhyw danwariant posib, fel y nodir yn adran 4.2 yn yr adroddiad.**

9. MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI – CHWARTER 2 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol y cyfrif Refeniw Tai ar gyfer Chwarter 2 2024/25 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Thai a dangosodd fod gwarged refeniw y CRT ar ddiwedd Chwarter 2 yn danwariant o £604k o'i gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd. Ar ddiwedd y flwyddyn rhagwelir gorwariant o £424K fel y manylir yn adrannau 5 i 8 yr adroddiad ac yn Atodiad A. Rhagwelir y bydd gwariant cyfalaf £1,023k yn uwch na'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn fel y manylir yn adran 9 yr adroddiad ac yn Atodiadau B ac C. Disgwylir i incwm grant fod yn fwy o £1,612k a disgwylir hefyd £128k ychwanegol mewn derbyniadau cyfalaf. Mae'r diffyg a ragwelir (gan gyfuno refeniw a chyfalaf) bellach yn £9,823k sydd £293k yn llai na'r gyllideb. Mae'r CRT wedi'i neilltuo a dim ond ar gyfer stoc tai'r Cyngor y gellir defnyddio ei gronfeydd wrth gefn. Ni ellir eu trosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol, ac ni ellir defnyddio cronfeydd wrth gefn y Gronfa Gyffredinol chwaith i ariannu'r CRT.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod sefyllfa'r CRT wedi newid dros amser. Yr egwyddor yw bod gwarged refeniw CRT o incwm rhent yn cael ei ail-fuddsoddi yn y stoc tai presennol ac mae'r gwarged, ynghyd â Lwfans Atgyweiriadau Mawr Llywodraeth Cymru, wedi bod yn ddigon yn y gorffennol i dalu costau'r buddsoddiad gyda datblygiadau tai newydd yn cael eu hariannu drwy fenthycia. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd mewn rhent yn unol â pholisi rhent Llywodraeth Cymru wedi cynyddu cymaint â chostau atgyweirio a chynnal a chadw o ddydd i ddydd, gan gynnwys cost deunyddiau, contractwyr a chyflog staff sy'n golygu bod gwarged y CRT wedi gostwng i bwynt lle nad yw'r arian dros ben a'r grant bellach yn ddigon i dalu costau cynnal y stoc a'u cadw mewn cyflwr da yn ogystal â chyflawni disgwyliadau uwch newydd SATC 2023. Er bod cronfeydd wrth gefn y CRT wedi cael eu defnyddio i wneud iawn am y diffyg, bydd yn rhaid adolygu'r sefyllfa yn y tymor hir a mynd ati i gynnal trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru am y polisi rhent a'r disgwyliadau ar gyfer cynnal tai cymdeithasol i'r safon ofynnol. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu tai cymdeithasol newydd a rhagwelir y bydd yn gwario £18m ar ddatblygiadau newydd yn 2024/25 fel y gwelir yn Atodiad C yr adroddiad. Fel gyda chynnal a chadw stoc bydd yn rhaid ystyried y dull strategol o ddatblygu stoc yn y dyfodol a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yng Nghynllun Busnes y CRT a gyflwynir yn y flwyddyn newydd.

Tynnwyd sylw yn y Pwyllgor Gwaith at ddatblygu 192 o unedau tai cymdeithasol newydd yn 2024/25 fel y nodir yn Atodiad C sy'n dangos y pwyslais y mae'r Cyngor yn ei roi ar fuddsoddi mewn cartrefi cyngor newydd, ac er bod y Pwyllgor Gwaith yn cytuno ag egwyddor SATC 2023 i geisio sicrhau ansawdd tai cymdeithasol, nodwyd yr heriau a

wynebir i fodloni gofynion y Safon newydd ynghyd â'r angen am yr adnoddau i sicrhau bod cynghorau sydd â'u stoc tai eu hunain yn gallu gwneud hynny.

Penderfynwyd nodi'r canlynol –

- **Y sefyllfa a nodwyd mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 2 2024/25.**
- **Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2024/25.**

10. SYLFAEN Y DRETH GYNGOR 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 at ddiben gosod sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer 2025/26 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid yr adroddiad a oedd yn nodi'r cyfrifiadau ar gyfer gosod sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer 2025/26. Rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn, fel awdurdod bilio, gyfrifo sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer ei ardal ac ar gyfer gwahanol rannau o'i ardal a rhaid rhoi gwybod am y symiau hyn i'r cyrff sy'n codi praeseptau ac ardollau erbyn 31 Rhagfyr 2024. Eleni, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am y wybodaeth er mwyn gosod y Grant Cynnal Refeniw erbyn 15 Tachwedd 2024, ac er mwyn pennu'r dreth (wedi cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith) erbyn 5 Ionawr 2025. Y ffigur a gyfrifwyd ar gyfer sylfaen y Dreth Gyngor i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i osod y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer y Cyngor ar gyfer 2025/26 yw 31,445.15 sy'n gynydd o 0.65% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys addasiadau am breimiau a disgowntiau a roddir gan rai awdurdodau mewn perthynas â Dosbarthiadau A, B, ac C (nid yw hyn yn effeithio ar Ynys Môn gan na roddir disgowntiau o'r fath). Cyfanswm y sylfaen dreth a gynigir ar gyfer 2025/26 er mwyn gosod trethi sy'n cynnwys addasiadau ar gyfer premiwm yw 33,472.17 ac mae'n gynydd o 0.91% ar y flwyddyn flaenorol.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y broses o gyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor er mwyn i Lywodraeth Cymru bennu lefel y Grant Cynnal Refeniw a hefyd er mwyn gosod trethi lleol a'r ffactorau dan sylw. Cyfeiriodd at newidiadau yn sylfaen y dreth o'r flwyddyn flaenorol ar gyfer y Dreth Gyngor safonol, eiddo gwag, ac ail gartrefi a sut mae'r rhain yn effeithio ar refeniw treth a chyllid gan Lywodraeth Cymru. Bydd y cynnydd yn nifer yr eiddo gwag yn cynyddu incwm premiwm ar eiddo gwag yn ogystal â'r cynnydd yn nifer yr eiddo sy'n gorfod talu'r premiwm ar ail gartrefi er bod y symudiad yn y gronfa dreth o ran yr olaf yn adlewyrchu newid yn nifer yr eiddo ym mhob band yn hytrach na newid yng nghyfanswm nifer yr eiddo. Er bod ffactorau sy'n gallu dylanwadu ar nifer yr eiddo gwag ac ail gartrefi, mae'r ffigurau'n codi cwestiynau am y premiwm ym mhob achos a ph'un ai a yw'r premiwm yn dal i fod yn effeithiol ar y lefelau presennol, i sicrhau'r canlyniad arfaethedig o ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd a chynyddu'r cyflenwad o dai mewn cymunedau. Bydd y newidiadau yn y sylfaen dreth yn effeithio ar fan cychwyn y Cyngor ar gyfer y gyllideb refeniw ar gyfer 2024/25.

Penderfynwyd -

- **Nodi cyfrifiad Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, fydd yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw i Gyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn ariannol 2025/26, sef 31,445.15 (gweler Atodiad A ar gyfer y cyfrifiad o Sylfaen y Dreth Gyngor at y diben yma - Rhan E6 o Atodiad A yn yr adroddiad).**
- **Cymeradwyo'r cyfrifiad at ddiben pennu Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 am y cyfan o'r**

ardal ac am rannau ohoni am y flwyddyn 2025/26 (gweler Atodiad A ar gyfer y cyfrifiad o sylfaen y dreth – Rhan E5 o Atodiad A yn yr adroddiad).

- Yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 (SI19956/2561), fel y cawsant eu diwygio gan SI1999/2935, a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) (Diwygiad) 2016, y rhain yw'r cyfansymiau y mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi eu cyfrif fel Sylfaen y Dreth am 2025/26 sef 33,472.17, ac am y rhannau hynny o'r ardal sydd wedi eu rhestru yn argymhelliad 3 yn yr adroddiad.

11. LLYTHYR BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a oedd yn cynnwys y Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) 2023/24 ar gyfer Cyngor Ynys Môn i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Roedd y Llythyr yn crynhoi perfformiad y Cyngor mewn perthynas â'r cwynion am wasanaethau a dderbyniwyd a'u canlyniadau yn ystod 2023/24, achosion yn ymwneud ag ymyrraeth gan yr Ombwdsmon a chwynion a wnaed o dan y Cod Ymddygiad i Aelodau.

Cyflwynwyd y prif negeseuon yn y Llythyr Blynyddol gan y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol. Dangosodd y rheini fod cynnydd wedi bod yn nifer y cwynion am wasanaethau a wnaed i OGCC er bod na ymchwiliwyd i'r un o'r cwynion. Mae perfformiad y Cyngor o ran ymdrin â chwynion wedi dirywio a dibynnir fwy ar ymyrraeth gan OGCC. Ystyrir bod materion staffio corfforaethol yn ffactor sylweddol sy'n cyfrannu at y dirywiad hwn wrth ymdrin â chwynio. Mae un o ddwy swydd allweddol yn dal yn wag ac mae'r ail swydd allweddol hefyd wedi dod yn wag ar 24 Tachwedd 2024. Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol at y camau penodol a gynlluniwyd ac sydd ar y gweill i wella'r perfformiad a'r broses o ymdrin â chwynion, gan gynnwys cyflwyno system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM) newydd. Bwriad llwyfan CRM yw awtomeiddio prosesau a darparu mwy o ddata amser real am berfformiad ar lefel gwasanaeth a pherfformiad corfforaethol a bydd yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan Benaethiaid Gwasanaeth a'r Tîm Arweinyddiaeth er ei bod yn annhebygol y bydd gan wasanaethau fwy o gapasiti i ymdrin â chwynion.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol na chafodd cwynion Cod Ymddygiad am aelodau'r Cyngor Sir nac aelodau Cynghorau Tref a Chymuned eu cyfeirio at y Pwyllgor Safonau na Phanel Dyfarnu Cymru gan OGCC yn 2023/24.

Wrth nodi'r cynnydd yn nifer y cwynion am wasanaethau o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, nododd y Pwyllgor Gwaith hefyd nad oedd yr Ombwdsmon yn ymchwilio i'r un ohonynt a bod 9 cwyn (24%) mewn perthynas â sut yr ymdriniwyd â chwynion, gyda'r swydd wag gorfforaethol wedi bod yn ffactor allweddol yn hyn o beth. Pwysleisiodd y Pwyllgor Gwaith bwysigrwydd canlyniadau cwynion a pharhau i ddysgu yn sgil cwynion er mwyn myfyrio ar arferion, a'u gwella, a nododd y penderfyniadau arfaethedig i ysgogi gwelliant.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Cyngor yn gweithredu dan bwysau mewn sawl maes ar adeg pan fo'r galw ar gynnydd, yn ogystal â disgwiliadau'r cyhoedd fod y Cyngor yn gallu cyflawni yn unol â hynny tra bod cyllid y Cyngor yn mynd yn llai. Cyfeiriodd at y swydd gorfforaethol wag fel mater allweddol mewn perthynas â pherfformiad y Cyngor wrth ymdrin â chwynion gan fod lefel o arbenigedd ynghlwm â'r swydd sy'n ei gwneud hi'n anodd i berson arall gamu i'r adwy dros dro. Rhagwelir y bydd llenwi'r swydd wag yn barhaol yn arwain at wella perfformiad y Cyngor wrth ymdrin â chwynion.

Penderfynwyd –

- Nodi a derbyn y Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ar gyfer 2023/24.
- Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i ysgrifennu at OGCC i gadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith wedi rhoi ystyriaeth ffurfiol i'w Llythyr Blynyddol.
- Darparu sicrwydd y bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cwynion, a thrwy hynny, roi'r sicrwydd sydd ei angen ar Aelodau i graffu ar berfformiad y Cyngor.
- Parhau i gefnogi'r Cyngor i ddatblygu ei system CRM fel llwyfan ar gyfer prosesu cwynion a darparu data "byw" am berfformiad trin cwynion, fesul gwasanaeth, i swyddogion perthnasol, penaethiaid gwasanaeth a'r Tîm Arweinyddiaeth.

12. CYNLLUN STRATEGOL MODERNEIDDIO GWASANAETHAU OEDOLION

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a oedd yn cynnwys Cynllun Moderneiddio Strategol Gwasanaethau Oedolion 2024-2029 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Roedd y Cynllun yn nodi blaenoriaethau Gwasanaeth Oedolion am cyfnod 2024-2029 i gyflawni amcanion Cynllun y Cyngor 2023-2028.

Cyflwynwyd Cynllun Moderneiddio Strategol Gwasanaethau Oedolion 2024-2029 gan y Cynghorydd Alun Roberts, Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol fel un sy'n nodi cyfeiriad cadarn a chliar ar gyfer gwasanaethau oedolion gan gynnwys gwasanaethau i bobl hŷn, anabledau dysgu a gwasanaethau iechedd meddwl. Mae'r cynllun yn amlinellu camau pendant i ymateb i'r heriau a ddaw yn sgil y disgwyliaid a'r galw cynyddol, argaeledd staff, adnoddau ariannol cyfyngedig a phoblogaeth sy'n heneiddio ac i foderneiddio elfennau o'r gwasanaeth fel eu bod yn briodol, yn fforddiadwy ac yn addas ar gyfer y dyfodol. Pwysleisiodd y Cynghorydd Alun Roberts bwysigrwydd gweithio gyda phartneriaid ym maes iechedd a'r trydydd sector i ddarparu'r math o gefnogaeth sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl. O ystyried yr heriau, mae'r cynllun strategol o reidrwydd yn uchelgeisiol ac yn drawsnewidiol ar gyfer gwasanaethau oedolion ac mae'n ceisio sicrhau bod gwasanaethau i bobl agored i niwed yn cael eu darparu'n effeithiol, yn effeithlon a'u bod o ansawdd uchel ac yn gynaliadwy.

Cadarnhaodd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion nad yw aros yn yr unfan yn opsiwn, a bod yn rhaid i wasanaethau oedolion barhau i ddatblygu er mwyn ymateb i heriau parhaus. Er bod cost darparu gofal yn uchel mae risgiau os na fyddwn yn darparu'r gofal priodol. Nod y strategaeth yw sicrhau'r ddarpariaeth orau ar hyn o bryd yn ogystal â symud y gwasanaeth yn ei flaen yn seiliedig ar alluogi pobl i fyw'n annibynnol cyhyd ag y bo modd, darparu gwasanaethau'n lleol, pwyslais ar atal a darparu'r cymorth priodol ar yr adeg briodol. Cyfeiriodd at y cyd-destun ac at gynnydd a ragwelir o 70% yn y boblogaeth dros 85+, y cynnydd sylweddol yn nifer y rhai sy'n dioddef o ddementia a'r ganran uchel o staff gofal y Cyngor sydd ar eu deng mlynedd olaf o wasanaeth fel rhai o'r heriau sy'n wynebu gofal cymdeithasol. Er bod y cynllun strategol yn nodi saith maes blaenoriaeth allweddol, o ystyried y cyfyngiadau ariannol, cydnabyddir efallai na fyddant i gyd yn cael eu cyflawni fel y byddai'r Cyngor yn dymuno ac efallai y bydd yn rhaid blaenoriaethu rhai elfennau o'r cynllun.

Gan siarad fel Cadeirydd y Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio, rhoddodd y Cynghorydd Dylan Rees, adroddiad o gyfarfod 20 Tachwedd 2024 y pwyllgor lle trafodwyd Cynllun Moderneiddio Strategol Gwasanaethau Oedolion. Roedd y pwyllgor sgrwtini wedi cydnabod yr angen i foderneiddio a thrawsnewid gwasanaethau oedolion er mwyn gwasanaethu dinasyddion Ynys Môn yn well nawr ac yn y dyfodol yn unol ag amcanion Cynllun y Cyngor ac roeddent hefyd wedi nodi'r heriau demograffig, ariannol ac o ran adnoddau a allai effeithio ar allu'r gwasanaeth i weithredu'r cynllun strategol. Roedd y pwyllgor wedi gofyn am sicrwydd y bydd y gwasanaeth yn gallu cyflawni ei amcanion a'r

canlyniadau arfaethedig yn y cynllun. Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig gweithredu strategaethau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol ar draws holl gymunedau Ynys Môn er mwyn sicrhau bod lleisiau trigolion lleol yn cael eu clywed a'u cynrychioli'n briodol. Ar ôl craffu'r Cynllun Strategol roedd Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio wedi penderfynu argymhell ei fod yn cael sêl bendith y Pwyllgor Gwaith.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at Gynllun Moderneiddio Strategol Gwasanaethau Oedolion 2024-2029 fel cynllun lefel uchel. Bydd gweithredu'r cynllun yn cynnwys nifer o feysydd gwasanaeth y Cyngor yn ogystal â gwasanaethau oedolion a bydd yn golygu lefel uchelgeisiol o wariant cyfalaf. Felly tynnodd sylw at bwysigrwydd cyllid grant gan Lywodraeth Cymru, hebdo ni fydd yn bosibl cyflawni nodau ac amcanion y cynllun a chadarnhaodd fod llawer iawn o waith yn mynd rhagddo yn y cefndir i sicrhau bod y Cyngor yn manteisio ar bob cyfle i sicrhau'r grantiau sydd ar gael i allu darparu'r math o lety addas, o ansawdd y mae'r cynllun yn ei ragweld ac y mae pobl fregus sy'n dibynnu ar gymorth y Cyngor, ei angen ac yn ei haeddu.

Wrth ganmol y cynllun strategol a'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni, roedd y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â rhoi'r cynllun ar waith yn enwedig o safbwynt cyllid ac adnoddau. Wrth nodi bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn cyllid cyfalaf ychwanegol, awgrymodd y Pwyllgor Gwaith fod achos i'w wneud dros rannu'r cyllid yn deg ac yn gyfartal ledled Cymru gan sicrhau ei fod yn cael ei ddyrannu i ble mae ei angen, yn enwedig lle mae newidiadau demograffig yn arwain at gynnydd yn y galw a'r pwysau. Roedd y Pwyllgor Gwaith hefyd yn cydnabod y cyfraniad y bydd gweithio mewn partneriaeth o fewn a heb y Cyngor yn ei wneud tuag at gyflawni sawl agwedd ar y cynllun a chydabu ymhellach bwysigrwydd yr amrywiaeth o waith ataliol sy'n cael ei wneud ar yr Ynys i helpu pobl i fyw'n annibynnol cyhyd ag y bo modd.

Dywedodd y Cynghorydd Alun Roberts fod materion cyllido wedi bod yn destun pryder yn nhrefodaethau'r pwyllgor sgriwtini ynghylch Cynllun Moderneiddio Strategol Gwasanaethau Oedolion ac felly mae neges glir i Lywodraethau Cymru a San Steffan fod angen mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r sector gofal yn enwedig yr angen i ariannu'r sector yn briodol a bod y sector cael yr un tegwch ac yn cael ei gydnabod yn gyfartal â Gofal Iechyd.

Penderfynwyd mabwysiadu'r Cynllun Strategol Moderneiddio Gwasanaethau Oedolion 2024-2029.

13. CYNLLUN STRATEGOL MÔN ACTIF

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a oedd yn cynnwys Cynllun Strategol Môn Actif 2024-29 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Mae Cynllun Strategol Môn Actif yn darparu cyfeiriad clir ac yn nodi meysydd blaenoriaeth allweddol a'r weledigaeth ar gyfer creu cymunedau iach ar Ynys Môn dros y cyfnod pum mlynedd nesaf.

Cyflwynwyd Cynllun Strategol Môn Actif 2024-29 gan y Cynghorydd Neville Evans, Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol. Y nod yw sicrhau bod gan y Cyngor gynllun cynaliadwy, y gellir ei gyflawni ac sy'n addas i'r diben i ddarparu gwasanaethau i wella iechyd a llesiant trigolion ac ymwelwyr â'r Ynys. Mae'r cynllun yn cydnabod yr angen i barhau i fuddsoddi yng nghyfleusterau hamdden y Cyngor a bydd gwneud y mwyaf o gyfleoedd am gyllid allanol yn allweddol i'r ymdrech honno. Mae'r cynllun strategol yn nodi pum maes blaenoriaeth sy'n cysylltu ag egwyddorion ehangach Cynllun y Cyngor 2023-28 ac mae'r rhain yn ymwneud â Chyfranogiad, Iechyd a Llesiant, Datblygu'r Gweithlu, Rheoli Cyfleusterau, Cynaliadwyedd Ariannol a Chydweithio. Cyfeiriodd y Cynghorydd Neville Evans at amrywiaeth y gweithgareddau hamdden gan Môn Actif ac at gynnydd mewn gweithgareddau yn y gymuned lle mae brand Môn Actif yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi. Mae rhaglenni gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn ystod gwyliau'r ysgol yn arbennig o

boblogaidd ac mae lefelau presenoldeb yn dda. Er bod heriau'n parhau ac yn cael eu cydnabod, mae'r cynllun strategol yn nodi'r llwybr i sicrhau bod gwasanaeth Môn Actif yn dal i fod yn gynaliadwy ac yn llwyddiannus yn y dyfodol.

Dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fod y cynllun strategol yn ymestyn y tu hwnt i'r gwasanaeth hamdden yn unig ac y bydd yn arwain at fanteision cymdeithasol, economaidd ac iechyd ehangach gan adeiladu ar ffordd gydweithredol o weithio sydd wedi bod yn llwyddiannus yn y gorffennol. Disgwylir i'w effeithiau gael eu teimlo dros y blynyddoedd nesaf ac yn y dyfodol.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Douglas Fowlie, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i gyflwyno safbwynt y pwyllgor sgriwtini ar Gynllun Strategol Môn Actif o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2024. Dywedodd y Cynghorydd Fowlie fod y pwyllgor wedi trafod sut mae'r cynllun strategol yn galluogi'r Cyngor i gyflawni Cynllun y Cyngor 2023-28. Roedd yr Aelodau wedi gofyn am sicrwydd ynghylch y ffynonellau data yn enwedig y data lleol mewn perthynas â gordewdra ymhlith plant a gofynnwyd cwestiynau ynghylch cynaliadwyedd canolfannau hamdden y Cyngor a'r risgiau a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor a'i bartneriaid wrth weithredu'r cynllun. Roedd y pwyllgor eisiau gwybod sut y gellid cynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio cyfleusterau hamdden y Cyngor a nodwyd bod y DPA cenedlaethol presennol ond yn mesur y defnydd o ganolfannau hamdden ac nad yw'n cynnwys y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau Môn Actif yn y gymuned. Wrth argymhell bod Cynllun Strategol Môn Actif yn mynd gerbron y Pwyllgor Gwaith i'w gymeradwyo, roedd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi cytuno ar gamau ychwanegol a oedd yn cynnwys gofyn i'r Arweinydd a'r Aelod Portffolio ystyried gofyn i Lywodraeth Cymru adolygu cwmpas y DPA cenedlaethol i gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau hamdden yn y gymuned leol.

Diolchodd y Pwyllgor Gwaith i'r pwyllgor sgriwtini am yr adborth ac am dynnu sylw at gwmpas cyfyngedig y DPA cenedlaethol a phwysigrwydd adlewyrchu'r holl wasanaethau a ddarperir gan Môn Actif sy'n ymestyn y tu hwnt i'r defnydd o ganolfannau hamdden. Nododd y Pwyllgor Gwaith y gwahanol bartneriaid sy'n ymwneud â'r gwaith a'r cysylltiadau ag iechyd, llesiant, atal a byw'n annibynnol gan ddangos y berthynas rhwng strategaethau ar draws nifer o feysydd.

Holodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg a yw'n bosibl disgrifio gwasanaethau cymunedol Môn Actif fel 'pop up' dros dro er mwyn ei chynnwys yn y DPA cenedlaethol. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth Hamdden fod y gwasanaeth yn coladu data ar y defnydd o wasanaethau hamdden yn y gymuned ac er bod y data'n cael ei fwydo i mewn i'r cynllun busnes gwasanaeth nid yw'n ofynnol rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru. Roedd y Cynghorydd Nicola Roberts o'r farn bod hyn yn briodol a chytunodd y Pwyllgor Gwaith y dylid anfon sylwadau at Lywodraeth Cymru fel yr awgrymwyd gan y pwyllgor sgriwtini gyda data ategol ac enghreifftiau i ddangos gwerth gwasanaethau cymunedol Môn Actif a'r buddion sy'n deillio o'r ddarpariaeth fel cyfiawnhad dros gynnwys y gwasanaethau hynny yn y DPA cenedlaethol. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai sylwadau'n cael eu hanfon.

Dywedodd y Prif Weithredwr pe bai amcanion hyn a'r cynllun strategol blaenorol yn cael eu cyflawni, gellid dynodi'r Ynys yn ynys sy'n "ystyriol o oedran" ac sy'n "actif." Yng nghydestun y cyfeiriadau niferus at bartneriaethau a chydweithio, cyfeiriodd at y berthynas waith ardderchog rhwng Môn Actif ac ysgolion yr Ynys sydd wedi dod yn rhan naturiol o weithgareddau bob dydd y ddau wasanaeth. Cyfeiriodd hefyd at y rôl sydd gan Gynllun Strategol Môn Actif wrth ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Y rhesymeg yw bod pobl ifanc yn fwy tebygol o siarad Cymraeg pan fyddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn mwynhau eu gwneud ac felly mae'r cynllun yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer hyrwyddo'r defnydd o'r iaith fel un o amcanion strategol y Cyngor.

Penderfynwyd cymeradwyo Cynllun Strategol Môn Actif 2024-29.

14. ASESIAD O'R FARCHNAD DAI LEOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai a oedd yn cynnwys Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LMHA) 2023-28 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Pwrpas yr LMHA yw darparu dadansoddiad eang o farchnad dai Ynys Môn, gan ystyried gofynion hirdymor tai ar Ynys Môn.

Cyflwynwyd yr adroddiad a'r asesiad gan y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Thai gan ei fod yn ofyniad statudol i awdurdodau lleol gynnal Asesiad o'r Farchnad Dai Leol bob pum mlynedd a'i ddiweddarau hanner ffordd drwy'r cyfnod hwnnw. Bydd y sail dystiolaeth yn yr asesiad hefyd yn cael ei defnyddio i lywio strategaeth Dai Ynys Môn a'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae hefyd yn llywio blaenoriaethau tai strategol a chynlluno gwasanaethau lleol fel addysg a thrafnidiaeth. Gellir defnyddio'r LHMA hefyd fel adnodd ar gyfer trafod darparu tai fforddiadwy wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio a dyrannu Grant Tai Cymdeithasol (SHG) i helpu i ddarparu tai fforddiadwy. Ar ôl ei chymeradwyo, bydd y ddogfen yn destun ymgynghoriad gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol i gael adborth a sylwadau ac ar ôl hynny bydd yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Tai drosolwg o'r LHMA yn cadarnhau ei fod wedi'i lunio gan ddefnyddio adnodd gan Lywodraeth Cymru sy'n ei alluogi i gyfrifo ffigurau'r angen am dai a'r galw am dai gan sicrhau bod dull cyson ar draws holl awdurdodau lleol Cymru. Mae'n seiliedig ar amrywiaeth cynhwysfawr o wybodaeth ystadegol ac mae'n cynnwys nifer o amcanestyniadau gan gynnwys rhagdybiaeth y bydd y cyflenwad tai a gynlluniwyd yn cael ei ddarparu a bydd y rhestr aros ar y gofrestr dai bresennol yn cael ei chlirio. Y gymhareb prisiau incwm/tŷ ar gyfer Ynys Môn yw 7.2 sy'n sylweddol uwch na'r gymhareb ar gyfer Gogledd Cymru a Chymru gyfan sy'n golygu bod dros 60% o'r boblogaeth yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai, er bod amrywiadau mewn prisiau ar draws y naw Ardal Farchnad Dai y mae'r Ynys wedi'i rhannu iddynt. Mae'r asesiad yn dangos bod y galw am dai fforddiadwy yn enwedig unedau rhent cymdeithasol un ystafell wely yn parhau i fod yn eithriadol o uchel a gallai nifer o ffactorau ddylanwadu ar hyn gan gynnwys yr angen i sicrhau darpariaeth addas ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol unigol sy'n dymuno symud i dŷ llai o lety maint teulu.

Rhoddodd y Cynghorydd Douglas Fowle, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol adborth y pwyllgor sgrwtini ar yr LMHA o gyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd a chyfeiriodd at y materion a godwyd gan y pwyllgor. Roedd y rhain yn cynnwys y risgiau a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor a'i bartneriaid darparu, y ffyrdd y bydd yr asesiad yn llywio ac yn dylanwadu ar bolisïau tai wrth lunio'r Cynllun Datblygu Lleol a'r sail ar gyfer dod i'r casgliad bod angen anheddau un ystafell wely. Roedd y pwyllgor wedi nodi bod yr asesiad yn rhoi cipolwg ar y farchnad dai ar hyn o bryd ond nad yw'n cynnig atebion i ddiwallu'r anghenion tai a nodwyd. Roedd yr aelodau hefyd wedi codi pryderon am effaith ail gartrefi ar fforddiadwyedd ac argaeledd tai i bobl leol mewn ardaloedd twristiaeth poblogaidd yn lleol ac yn genedlaethol. Wrth argymhell bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r LMHA, roedd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi cytuno ar gamau pellach a oedd yn cynnwys gofyn i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y data sy'n sail i'r LMHA yn cael ei ddiweddarau, gan ddefnyddio'r data i ddylanwadu ar bolisi cenedlaethol i fynd i'r afael ag anghenion tai mewn cymunedau a gofyn i'r Pwyllgor Gwaith ystyried adolygu lefel Premiwm y Dreth Gyngor sy'n berthnasol i ail gartrefi a chartrefi gwag hirdymor.

Diolchodd y Pwyllgor Gwaith i Graffu am yr adborth a nododd y pwyntiau a godwyd.

Penderfynwyd –

- **Cymeradwyo'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2023-28.**

- Cymeradwyo'r broses ymgynghori.
- Cymeradwyo dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaethau Tai, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio Tai, i gytuno ar unrhyw fân newidiadau golygyddol sydd angen eu gwneud i'r Aseiad o'r Farchnad Dai Leol drafft cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Cynghorydd Gary Pritchard
Cadeirydd

DRAFT

PWYLLGOR GWAITH

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2024 yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithwir ar Zoom

YN BRESENNOL:	Y Cyngorydd Gary Pritchard (Arweinydd) (Cadeirydd) Y Cynghorwyr Neville Evans, Dyfed Wyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams.
WRTH LAW:	Prif Weithredwr Dirprwy Brif Weithredwr Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Pennaeth Gwasanaethau Tai Pennaeth Democratiaeth Rheolwr Rhaglen Corfforaethol (AR) Swyddog Pwyllgor (ATH) Swyddog Gwe-ddarlledu (FT)
YMDDIHEURIADAU:	Y Cyngorydd Carwyn Jones, Marc B. Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
HEFYD YN BRESENNOL:	Y Cynghorwyr Douglas Fowlie, Glyn Haynes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, R. Llewelyn Jones, Derek Owen, Dylan Rees, Anwen Davies (Rheolwr Sgriwtini) (ar gyfer eitem 5)

1. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd a nodwyd yr ymddiheuriadau.

2. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

3. MATERION BRYD A ARDYSTIWDYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG PENODEDIG

Nid oedd unrhyw faterion brys i'w hadrodd ond manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i bawb fu'n gweithio'n galed dros y penwythnos, mewn amgylchiadau anodd iawn, er mwyn ymateb i Storm Darragh ac ymdrin â'i effeithiau, gan gynnwys staff y Cyngor, contractwyr, aelodau'r gymuned, ffermwyr lleol fu'n cynorthwyo i glirio malurion oddi ar y ffyrdd a pheirianwyr Scottish Power fu'n gweithio i ailgysylltu cartrefi i'r cyflenwad trydan.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr ei ddiolch yntau at ddiolch y Cadeirydd a dywedodd fod Tîm Môn wedi dangos ei hun ar ei orau mewn sefyllfa ddifrifol ac roedd yn hyderus fod pawb a gyfrannodd wedi gwneud eu gorau er budd trigolion Môn.

4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd, i'w gadarnhau, adroddiad y Pennaeth Democratiaeth yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Ionawr ac Awst 2025.

Diweddarodd y Pennaeth Democratiaeth y Pwyllgor Gwaith ar yr eitemau a oedd yn newydd i'r Flaen Raglen Waith a nododd fod dwy eitem wedi cael eu haildrefnu ar ôl cyhoeddi'r rhaglen, sef – Cartrefi'r Awdurdod Lleol ar gyfer pobl hŷn, gosod y tâl safonol – sydd wedi symud o fis Chwefror i Ionawr 2025 a – Ffioedd cartrefi gofal y sector annibynnol ar gyfer 2025/26 a symudwyd o Ionawr i Chwefror 2025.

Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddarau am y cyfnod Ionawr i Awst 2025 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.

5. CYNLLUN STRATEGOL CAFFAEL A RHEOLAU GWEITHDREFNAU CONTRACTAU

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried a'i gymeradwyo, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Cynllun Strategol Caffael drafft a'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau drafft.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Thai, a chafwyd amlinelliad o'r cefndir ganddo, sef bod Llywodraeth y DU wedi adolygu'r ddeddfwriaeth yn gysylltiedig â chaffael yn y sector cyhoeddus trwy gyflwyno Deddf Caffael 2023 a ddaw i rym ar 24 Chwefror 2025, a hynny'n hwyrach na'r dyddiad arfaethedig gwreiddiol, sef 28 Hydref 2024. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi pasio Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, sy'n gosod cyfrifoldebau a dyletswyddau ychwanegol ar sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru mewn perthynas â chaffael. Comisiynodd y Cyngor gwmni allanol i adolygu parodrwydd y Cyngor ar gyfer y newid mewn deddfwriaeth a darparu cynllun gweithredu i'r Cyngor er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn gallu cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, sy'n cynnwys nifer o feysydd, gan gynnwys y strategaeth gyffredinol. Mae'r Cynllun Strategol yn nodi ymagwedd y Cyngor mewn perthynas â chaffael ac mae'n sicrhau bod y dull caffael yn cydymffurfio â deddfwriaeth, polisiau a phrosesau mewnol, ei fod yn foesebol, yn agored, yn deg a thryloyw a'i fod yn cynnwys ffactorau economaidd, cymdeithasol, llafur ac amgylcheddol yn y broses. Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams mai'r bwriad yw caffael yn lleol lle bo hynny'n bosib, a thynnodd sylw at y ffaith fod tua chwarter o gontractau'r Cyngor yn nwylo cwmni lleol ac, mewn rhai achosion, lle nad yw'r contract yn nwylo cwmni lleol, mae adnoddau lleol, megis staff, yn cael eu defnyddio i gyflawni'r contract.

Dywedodd hefyd fod y newid yn y ddeddfwriaeth caffael yn golygu bod rhaid i'r Cyngor ddiweddarau'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau, sef y rheolau sy'n nodi'r broses ar gyfer cynnal ymarfer caffael, y gwahanol ddulliau caffael, a phryd y dylid eu defnyddio. Drafftwyd y Rheolau Gweithdrefnau Contractau diwygiedig i sicrhau eu bod yn ddigon hyblyg i ganiatáu i swyddogion gynnal ymarfer caffael yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol, wrth barhau i sicrhau fod unrhyw ymarfer caffael yn cael ei reoli a'i fod yn sicrhau gwerth am arian i'r Cyngor.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y byddai gwaith ar y cynllun gweithredu, os yw'r Cynllun Strategol a'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau'n cael eu cymeradwyo, yn cychwyn o dan oruchwyliaeth tîm prosiect. Mae hyfforddiant staff wedi'i drefnu ym mis Ionawr a Chwefror cyn i'r ddeddfwriaeth newydd ddod i rym ar 24 Chwefror 2025. Cyfeiriodd at y meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn y Cynllun, sef arweinyddiaeth a diwylliant, defnyddio data a bod yn wybodus yn fasnachol, gwerth cymdeithasol a'r amgylchedd, gan sicrhau cydymffurfiaeth a chanolbwyntio ar yr economi lleol. Mae'r Cynllun yn nodi sut y caiff yr agweddau hyn eu cyflawni a sut fydd llwyddiant yn y meysydd hyn yn

cael ei asesu a'i arfarnu. Y bwriad yw adrodd yn rheolaidd ar gynnydd i'r Tîm Arweinyddiaeth ac yn flynyddol i'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Douglas Fowlie, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, i gyflwyno safbwyntiau Sgriwtini yn dilyn y cyfarfod ar 19 Tachwedd 2024, pan ystyriodd y pwyllgor y Cynllun Strategol Caffael drafft a'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau. Cyfeiriodd at y materion a godwyd gan y pwyllgor yn ystod y drafodaeth, gan gynnwys sut fyddai'r newidiadau arfaethedig yn cyfrannu at wireddu amcanion Cynllun y Cyngor a chynorthwyo'r Cyngor i sicrhau gwerth am arian, gan sicrhau fod y Cyngor yn cydymffurfio â'r strategaeth, y ddeddfwriaeth newydd a rheolau gweithdrefnau contractau, p'un a yw'r cyngor yn gallu ystyried modelau cyflawni amgen a'r defnydd o dechnoleg i sicrhau arbedion gweinyddol, a'r manteision i'r economi leol o ran cynorthwyo busnesau lleol i dendro am gontractau a gwariant contractau ar gwmnïau lleol. Ar ôl derbyn sicrwydd ynglŷn â'r materion hyn, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol argymhell y Cynllun Strategol Caffael a'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.

Mynegodd y Pwyllgor Gwaith ei werthfawrogiad o'r Cynllun Strategol ac roedd yn cytuno ei fod wedi distyllu mater cymhleth a'i gyflwyno mewn dogfen hygyrch. Nododd y Pwyllgor Gwaith fod llunio contractau gyda chyflenwyr lleol ac ymgysylltu â busnesau lleol yn elfennau pwysig o'r cynllun, yn ogystal â chydabod y gall caffael yn lleol greu manteision cymdeithasol ehangach, megis cyflogaeth, a gall ddarparu profiadau ar gyfer pobl leol na fyddai'n cael cyfleoedd o'r fath oni bai am hynny.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Aelod Portffolio - Addysg a'r Gymraeg, at y disgwyliadau a nodir yn Atodiad B2, sef y bydd chyflenwyr yn darparu yn unol â safonau cydnabyddedig, a nododd mai'r safonau a nodir ar gyfer amaeth yw safonau Global G.A.P. Gofynnodd am eglurhad ynglŷn â gofynion y safonau Global G.A.P. a gofynnodd am sicrwydd hefyd na fydd angen i gyflenwyr lleol, gan gynnwys ffermwyr, gydymffurfio â safonau sy'n ychwanegol, neu'n wahanol i safonau cydnabyddedig a chytunedig lleol a chenedlaethol, a allai olygu y byddai'n anodd iddynt gydymffurfio.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai Swyddogion, gyda chymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith, yn edrych ar y safonau Global G.A.P. ac yn adrodd yn ôl arnynt, yn ogystal ag ar y gofynion y gellir disgwyl, yn rhesymol, i gyflenwyr gydymffurfio â nhw sydd yn unol â safonau ac arferion lleol a chenedlaethol.

Penderfynwyd –

- **Cymeradwyo Cynllun Strategol Caffael y Cyngor a ddaw yn weithredol ar y dyddiad y daw'r ddeddfwriaeth newydd i rym (Atodiad A yr adroddiad).**
- **Cymeradwyo'r Rheolau Gweithdrefn Contract diwygiedig a ddaw yn weithredol ar y dyddiad y daw'r ddeddfwriaeth newydd i rym (Atodiad B yr adroddiad).**
- **Dirprwyo unrhyw benderfyniadau pellach y mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith eu cymeradwyo mewn perthynas â gweithredu'r Cynllun Gweithredu Caffael i'r Deilydd Portffolio Cyllid. Bydd yr holl benderfyniadau yn cael eu cyhoeddi yn y ffordd arferol.**
- **I ofyn i Swyddogion ddarparu eglurhad mewn perthynas â safonau sicrwydd fferm Global G.A.P ac adrodd yn ôl yn dilyn hynny gyda'r bwriad o sicrhau bod disgwyliadau'r Cyngor, mewn perthynas â'i gyflenwyr, yn cyd-fynd â safonau ac arferion lleol a chenedlaethol cyfredol.**

6. RHENTI A THALIADAU GWASANAETHAU TAI 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cynnydd mewn rhenti a thaliadau gwasanaeth ar gyfer 2025/26.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Thai, a dywedodd bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynnydd o hyd at 2.7% mewn lefelau rhenti cymdeithasol ar gyfer 2025/26. Mae'r taliadau ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod yn ystod 2025/26 yn seiliedig ar y costau gwirioneddol a gafwyd yn 2023/24 ac maent yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng y tenantiaid a'r lesddeiliaid sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Gan nad yw Polisi Rhenti Llywodraeth Cymru'n darparu unrhyw ganllawiau ar sut i gynyddu rhenti garejys, mae'r Cyngor felly'n cynnig codi rhenti garejys gan 10%, neu £1.00 yr wythnos, i £11.02 yr wythnos. Bydd hyn yn cynhyrchu incwm o £290k ar ôl hepgor garejys gweigion, a bydd yn cael ei ddefnyddio i greu cynllun strategol ar gyfer garejys. Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams fod rhenti garejys y Cyngor yn sylweddol is na'r taliadau ar gyfer llogi cynhwysyddin. Nododd hefyd y bwriedir ysgrifennu llythyr at Lywodraeth Cymru er mwyn amlygu nad yw'r cynnydd blynyddol mewn rhenti yn ddigonol i ganiatáu i'r CRT ariannu costau ychwanegol o ganlyniad i gyfraniadau Yswiriant Gwladol ychwanegol gan y cyflogwr a gyhoeddwyd yn y Gyllideb ym mis Hydref, y safonau SATC 2023 newydd a chwyddiant mewn costau adeiladu. Bydd gweithredu'r cynnydd o 2.7% yn golygu cynnydd o rhwng £2.20 a £3.98 yr wythnos ar gyfer pob tenant. Er hynny, ni fydd 2,931 (74.5%) o denantiaid y Cyngor yn wynebu unrhyw galedi ychwanegol yn sgil y cynnydd mewn rhenti a thaliadau gwasanaeth gan eu bod yn derbyn Budd-dal Tai llawn neu rannol, neu'r Credyd Cynhwysol. Bydd yr un cynnydd o 2.7% yn berthnasol hefyd i 37 eiddo rhent canolradd y Cyngor.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod polisi rhenti 5 mlynedd Llywodraeth Cymru'n dod i ben ar ddiwedd 2025/26 a bod un ar ddeg trysorydd y cyngorau sydd wedi cadw eu stoc dai wedi cychwyn trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru sydd yn arwain ar y polisi newydd, er mwyn codi pryderon nad yw lefelau rhenti'n ddigonol i gwrdd â'r costau ychwanegol sy'n wynebu'r CRT yn 2025/26 a thu hwnt. Bydd Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar bolisi rhenti newydd yn y Flwyddyn Newydd a bydd y Cyngor, fel cyngor sydd wedi cadw ei stoc dai, yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar y broses honno. Un awgrym sy'n cael ei gwneud yw y dylid rhoi'r gorau i ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn y fformiwla ar gyfer penderfyni ar y cynnydd mewn rhenti a defnyddio mesur o chwyddiant yn ei le sy'n adlewyrchu'n fwy cywir y cynnydd mewn costau a wynebwr gan y sector tai. Er y derbynnir bod angen i dai cymdeithasol fod yn fforddiadwy i denantiaid, mae angen i gynghorau sicrhau bod y CRT yn parhau i fod yn ariannol hyfyw.

Dywedodd y Cadeirydd iddo fanteisio ar y cyfle i godi'r mater mewn cyfarfod gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru yn ystod ei hymweliad diweddar ag Ynys Môn ac roedd yr arweinydd yn cydnabod bod llinell denau iawn rhwng cadw rhenti'n fforddiadwy a sicrhau fod y CRT yn cael ei ariannu'n ddigonol er mwyn caniatáu i'r Cyngor barhau i gynnal a datblygu tai cymdeithasol o ansawdd ar gyfer trigolion Môn.

Dywedodd y Cynghorydd Nicola Roberts, Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd, na fydd 75% o denantiaid y Cyngor yn cael eu heffeithio gan y cynnydd mewn rhenti gan eu bod yn derbyn budd-daliadau, ond gallai rhai o'r 25% sy'n weddill gael eu heffeithio ac, yn yr achos hwnnw, mae'n hanfodol fod unrhyw un sy'n profi caledi'n derbyn cyngor. Tynnodd sylw at Gyngor Ar Bopeth fel sefydliad sy'n arbennig o dda am roi cyngor ynglŷn â'r cymorth sydd ar gael, yn ogystal â llinell gymorth Advice Link Cymru, 'Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi', sy'n gallu helpu pobl gymwys i hawlio'r hyn sy'n ddyledus iddynt. Cyfeiriodd at y cynnydd rhenti ar gyfer garejys, gan ddweud ei fod yn gynnydd rhesymol ar

gyfer cyfleusterau storio sy'n cael eu rhentu gan eraill yn ogystal â thenantiaid y Cyngor, a dywedodd ei bod yn cefnogi'r cynigion.

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn cytuno ei bod yn bwysig i bobl hawlio'r budd-daliadau sy'n ddyledus iddynt a bod gan aelodau rôl o ran codi ymwybyddiaeth yn eu cymunedau o'r ffynonellau cymorth a chymorth ariannol sydd ar gael.

Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –

- **Cynnydd o 2.7% ar draws yr holl unedau rhent cyffredinol sy'n unol â pholisi rhent Llywodraeth Cymru wrth gasglu dros 51 wythnos.**
- **Cynnydd o £1.00 yr wythnos ar gyfer rhenti pob garej.**
- **Codi taliadau gwasanaeth fel y nodir yn adran 6.3 yr adroddiad ar bob tenant sy'n derbyn y gwasanaethau perthnasol.**
- **Gweinyddu'r Cynllun Cymorth Rhent - sef cynllun lleol i gefnogi tenantiaid sydd mewn trafferthion ariannol.**
- **Bod llythyr yn cael ei ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn datgan nad yw'r cynnydd mewn rhenti yn ddigonol i alluogi'r CRT ariannu'r costau uwch o ganlyniad i gyfraniadau ychwanegol gan gyflogwyr YG yn dilyn cyhoeddiad y Gyllideb, safonau SATC2023 a chwyddiant costau adeiladu.**

**Y Cynghorydd Gary Pritchard
Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	21 Ionawr 2025
Pwnc / Testun:	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
Deilydd(ion) Portffolio:	Y Cyngorydd Gary Pritchard
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad:	Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Aelodau Lleol:	Amherthnasol

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Chwefror – Medi 2025**;

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydy'.

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Amherthnasol.

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Ddim yn berthnasol.
2	A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut?	
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhwch wybod gyda phwy.	
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantaes economaidd-gymdeithasol.	
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau?		
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Tîm Arweinyddiaeth.
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth (TG)	
7	Caffael	
8	Sgriwtini	Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt.
9	Aelodau Lleol	Ddim yn berthnasol.

F - Atodiadau:

Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Chwefror – Medi 2025

Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth):

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyfnod: Chwefror – Medi 2025

Mae'r flaen raglen waith hon yn rhestru'r holl benderfyniadau y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud a pha fusnes y bydd y pwyllgorau sgrwtini yn ei ystyried ynghyd â phryd y bydd y materion hynny'n cael eu trafod. Mae hefyd yn rhestru unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud mewn perthynas â phenderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud gan y Cyngor llawn.

Tudalen 22
Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig.

Mae'r flaen raglen waith yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol. Nid yw'r ffaith nad yw penderfyniad wedi'i gynnwys yn y flaen raglen waith yn atal materion brys neu rai na ragwelwyd rhag cael eu hystyried.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Diweddarwyd ddiwethaf ar 10 Ionawr 2025

Chwefror 2025

Tudalen 23

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 18 Chwefror 2025	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 3, 2024/25	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Cyllid – 18 Chwefror 2025
	Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 3, 2024/25	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Cyllid – 18 Chwefror 2025
	Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 3, 2024/25	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Cyllid – 18 Chwefror 2025
	Adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2024/25	Cyng Robin Williams	
	Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025/26	Cyng Robin Williams	
	Ffioedd a Thaliadau 2025/26	Cyng Robin Williams	
	Ffioedd cartrefi gofal y sector annibynnol 2025/26	Cyng Alun Roberts	
	Polisi Iaith Gymraeg	Cyng Dafydd Roberts	Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio – 12 Chwefror 2025 Cyngor Llawn – 6 Mawrth 2025
Cyfarfod 27 Chwefror 2025	Strategaeth Gyfalaf	Cyng Robin Williams	Cyngor Llawn - 6 Mawrth 2025
	Cyllideb Gyfalaf 2025/26	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Cyllid – 18 Chwefror 2025 Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol – 19 Chwefror 2025 Cyngor Llawn - 6 Mawrth 2025

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
	Cyllideb Refeniw 2025/26 – cynigion terfynol	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Cyllid – 18 Chwefror 2025 Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol – 19 Chwefror 2025 Cyngor Llawn - 6 Mawrth 2025
Penderfyniad dirprwyiedig – Chwefror 2025	Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Bioamrywiaeth	Cyng Nicola Roberts	

Mawrth 2025

Tudalen 24

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 25 Mawrth 2025	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 3, 2024/25	Cyng Carwyn Jones	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol - 11 Mawrth 2025
	Cynllun Ynni Ardal Lleol	Cyng Nicola Roberts	Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio – 12 Mawrth 2025
	Cynllun Strategol Rheoli Risg Llifogydd Lleol	Cyng Dafydd Rhys Thomas	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol - 11 Mawrth 2025
	Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2023/24	Cyng Dafydd Roberts Cyng Robin Williams	
Penderfyniad dirprwyiedig – Mawrth 2025	Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2023/24	Cyng Alun Roberts	Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio – 12 Mawrth 2025

Ebrill 2025

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 29 Ebrill 2025	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	

Mai 2025

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod mis Mai 2025	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	

Tudalen 25 Mehefin 2025

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod mis Mehefin 2025	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 4, 2024/25	Cyng Carwyn Jones	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol -
	Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 4, 2024/25	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Cyllid -
	Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 4, 2024/25	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Cyllid -

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
	Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 4, 2024/25	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Cyllid -
Penderfyniad dirprwyiedig – Mehefin 2025	Adroddiad blynyddol Safonau'r Gymraeg 2024/25	Cyng Dafydd Roberts	Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio –

Gorffennaf 2025

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod mis Gorffennaf 2025	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	

Tudalen 26

Medi 2025

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod mis Medi 2025	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 1, 2025/26	Cyng Carwyn Jones	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol -
	Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 1, 2025/26	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Cyllid -
	Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 1, 2025/26	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Cyllid -

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
	Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 1, 2025/26	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Cyllid -

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I:	Y PWYLLGOR GWAITH
DYDDIAD:	21 IONAWR 2025
PWNC:	CYLLIDEB REFENIW DRAFFT 2025/26
DEILYDD/DEILIAID PORTFFOLIO:	Y CYNGHORYDD ROBIN W WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO – CYLLID
PENNAETH GWASANAETH:	MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
AWDUR YR ADRODDIAD:	MARC JONES
FFÔN:	01248 752601
E-BOST:	rmjfi@ynysmon.llyw.cymru
AELODAU LLEOL:	amh
A - Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau	
<p>Ni fydd y gyllideb derfynol yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor llawn tan 6 Mawrth 2025, fodd bynnag, ar hyn o bryd, argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r canlynol:-</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Y gyllideb arfaethedig gychwynnol ar gyfer 2025/26 o £195.234m; (ii) Cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor o 8.85%, ynghyd â 0.65% i dalu'r Ardoll Tân = Cyfanswm o 9.50%, gan fynd â thâl Band D i £1,721.70; (iii) Cynnig yn ffurfiol i gadw'r premiwm ar gartrefi gwag ac ail gartrefi ar 100%; (iv) Bod £2.000m yn cael ei ryddhau o falansau cyffredinol y Cyngor a chronfeydd wrth gefn clustnodedig er mwyn mantoli cyllideb refeniw 2025/26. <p>Mae'r adroddiad manwl ar baratoi cyllideb ddisymyd 2025/26, y setliad dros dro a chyllido'r bwch yn y gyllideb ynghlwm fel Atodiadau 1, 2 a 3.</p>	
B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?	
<p>Mae nifer o opsiynau wedi'u hystyried wrth gyrraedd y gyllideb arfaethedig y manylir arni yn yr adroddiad hwn. Roedd yr opsiynau'n ystyried lefel y gwariant net yn seiliedig ar y setliad drafft gan Lywodraeth Cymru ac opsiynau'n ymwneud â lefel y Dreth Gyngor. Nod y gyllideb arfaethedig yw taro cydbwysedd rhwng lleihau Gwasanaethau a chodi y Dreth Gyngor.</p>	
C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?	
<p>Mae gosod y gyllideb arfaethedig gychwynnol yn fater a ddirprwywyd i'r Pwyllgor Gwaith.</p>	
Ch - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?	
<p>Ydi. Bydd y penderfyniad terfynol ar gyllideb refeniw 2025/26 yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2025.</p>	
D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?	
<p>Ydi. Bydd y penderfyniad terfynol ar gyllideb refeniw 2025/26 yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2025.</p>	

Dd – Aseu'r effaith bosibl (os yw'n berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys?	Mae'r sefyllfa ariannol bresennol yn heriol, gyda'r cyllid gan y llywodraeth yn annigonol i gwrdd â'r costau cynyddol a wynebir gan y Cyngor. Bydd y diffyg hwn mewn cyllid yn effeithio ar allu'r Cyngor i ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd hirdymor a wynebir gan yr Ynys. Cyllideb arfaethedig gychwynnol yw hwn a fydd yn cael ei adolygu cyn gosod a chymeradwyo'r gyllideb derfynol ar gyfer 2025/26. Wrth lunio'r gyllideb arfaethedig, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried ei ddyletswyddau statudol a'r amcanion a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Mae manylion unrhyw gynigion arbedion wedi'u nodi yn yr adroddiad.
3	A ydym wedi bod yn gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod pwy	Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda Chynghorau eraill, partneriaid rhanbarthol a lleol a'r CLILC i bwysu ar Lywodraeth Cymru am y setliad ariannol gorau posibl.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Eglurwch sut.	Bydd y gyllideb arfaethedig yn destun cyfnod o ymgynghori a fydd yn caniatáu i ddinasyddion Ynys Môn wneud sylwadau ar y cynigion.
5	Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Bydd unrhyw gynigion a gynhwysir yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2025/26 yn ystyried yr effaith ar unrhyw grwpiau gwarchoddedig.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Bydd y gyllideb yn arwain at gynnydd yn y Dreth Gyngor sy'n daladwy gan drethdalwyr Ynys Môn. Mae'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn gymwys i gael cymorth drwy'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a ddylai arwain at ddim effaith ariannol / effaith ariannol gyfyngedig i'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.
7	Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Dim effaith wedi'i nodi.
E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth wnaeth o/hi ddweud?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Mae sylwadau'r TA wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad ac mae'r adroddiad drafft yn cael ei gymeradwyo gan y TA.
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	amh – hwn yw adroddiad y Swyddog Adran 151.
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro yn Aelod o'r TA ac mae unrhyw sylwadau a wnaed wedi'u cymryd i ystyriaeth mewn trafodaethau ar yr adroddiad hwn yn y TA.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Bydd unrhyw gynigion sy'n effeithio ar staff wedi'u nodi a'u trafod gyda'r Tîm Adnoddau Dynol.
5	Eiddo	Bydd unrhyw gynnig sy'n effeithio ar gyllidebau eiddo'r Cyngor a'r cyllidebau cysylltiedig, wedi'u trafod gyda'r Tîm Eiddo.

6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Bydd unrhyw gynnis sy'n effeithio ar systemau technoleg gwybodaeth y Cyngor a chyllidebau cysylltiedig wedi'u trafod gyda'r Tîm TGCh.
7	Craffu	Cafodd y gyllideb arfafethedig gychwynnol eu hystyried gan y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 15 Ionawr 2025. Penderfynodd y Pwyllgor i gefnogi Cynnig Cychwynnol y Pwyllgor Gwaith.
8	Aelodau Lleol	Mae'r cynigion yn berthnasol i bob Aelod.
9	Unrhyw gyrff allanol / eraill	
F - Atodiadau:		
<ul style="list-style-type: none"> • Atodiad 1 – Adroddiad ar Gyllideb Refeniw Ddrafft 2025/26 • Atodiad 2 – Cyllideb Arfaethedig 2025/26 fesul Gwasanaeth • Atodiad 3 – Lleihad Arfaethedig yn y Gyllideb ar gyfer 2025/26 		
Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2025/26 – 2027/28 – Gweler Agenda cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith, 24 Medi 2024 – Eitem 10. 		

CYLLIDEB REFENIW DRAFFT 2025/26

1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Mae'r adroddiad a ganlyn yn nodi cyllideb referniw dros dro y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2025/26. Paratoir y gyllideb ar sail y tybiaethau a nodir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2024, a'r setliad dros dro i lywodraeth leol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 10 Rhagfyr 2024. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu'r arbedion referniw arfaethedig sydd wedi eu hadnabod gan y gwasanaethau unigol ac sydd wedi eu trafod gan y Tîm Arweinyddiaeth, Deiliaid Portffolio unigol a'r Pwyllgor Gwaith.
- 1.2. Ni ragwelir y bydd ffigyrau'r setliad terfynol yn dod i law tan ddiwedd mis Chwefror 2025. Bydd y gyllideb arfaethedig derfynol yn destun adolygiad gan y Pwyllgor Sgriwtini ar 19 Chwefror 2025, a bydd yn cael ei argymhell i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ar 27 Chwefror 2025, gyda chyllideb derfynol 2025/26 yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2025. Ni ragwelir unrhyw newid sylweddol rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol ond, os bydd newid sylweddol yn codi, byddai'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith yn cael ei newid cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn.
- 1.3. Mae cyllideb 2025/26 yn cael ei phennu mewn cyfnod heriol iawn i economi'r DU, ar gyfer ariannu gwasanaethau'r sector cyhoeddus a'r heriau y mae holl awdurdodau lleol y Deyrnas Unedig yn eu hwynebu, gyda chynnydd yn y galw am wasanaethau, effaith y lefel uchel o chwyddiant ers dechrau 2022 a'r gostyngiad mewn termau real yng nghyllid y llywodraeth ganolog. Mae newid llywodraeth y DU wedi dechrau arwain at newid yn y dull o gyllido gwasanaethau cyhoeddus ac mae hyn wedi arwain at gyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn 2024/25 a 2025/26. Rhaid aros i weld a yw'r cynnydd mewn cyllid yn gynaliadwy h.y. a fydd y twf yn yr economi yn cynhyrchu referniw treth digonol i ganiatáu cynnydd parhaus mewn cyllid?
- 1.4. Efallai bod y sefyllfa a wynebhir gan Gyngorau Cymru yn well na'r hyn a wynebhir gan Gyngorau Lloegr ond mae sefyllfa ariannol yr holl Gyngorau wedi gwaethygu dros y 12 mis diwethaf, gyda rhai Cyngorau'n awgrymu'n agored efallai y bydd yn rhaid iddynt gyhoeddi hysbysiad Adran 114 o fewn y 2 flynedd nesaf, heb gynnydd sylweddol yn y cyllid.
- 1.5. Cynhaliodd CLILC arolwg o bob un o'r 22 Cyngor a ddaeth i'r casgliad bod Gyngorau Cymru yn wynebu pwysau cyllidebol o £563m yn 2025/26, £457m yn 2026/27 a £462m yn 2027/28. I gwrdd â'r pwysau ariannol hynny yn 2025/26, byddai'n rhaid i gyllidebau referniw net gynyddu tua 7%. Paratowyd y ffigyrau hyn cyn y cynnydd yn y cyflog byw cenedlaethol a'r newidiadau i Yswiriant Gwladol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar 30 Hydref 2024.
- 1.6. Cyn cyhoeddi'r setliad llywodraeth leol drafft i Gymru, roedd lefel sylweddol o ansicrwydd ynghylch ei gynnwys ac a fyddai cyllid parhaol ychwanegol yn cael ei gynnwys i gwrdd â chost codiadau yng nghyflogau athrawon a chyfraniadau pensiwn cyflogwyr a'r costau ychwanegol sy'n deillio o'r newidiadau mewn yswiriant gwladol a wynebhir, nid yn unig gan y Cyngor mewn perthynas â'i staff ei hun, ond hefyd gan gontractwyr y Cyngor ac, yn arbennig, darparwyr gofal cymdeithasol. Rydym yn dal i aros am eglurhad ynghylch y sefyllfa o ran costau yswiriant gwladol ychwanegol (gweler paragraff 4.4 am ragor o wybodaeth).
- 1.7. Cyn y cyhoeddiadau a wnaed yng nghyllideb Hydref 2024 a'r setliad dros dro dilynol i lywodraeth leol, roedd y diffyg cyllid amcangyfrifedig a wynebhai'r Cyngor yn sylweddol ac yn fwy nag a welwyd yn ystod y cyfnod o galedi. Mae'r cyhoeddiadau am gyllid ychwanegol yn mynd beth o'r ffordd i gau'r bwlch ariannol, ond nid ydynt yn cyllido'r holl bwysau ariannol a wynebhir gan y Cyngor yn y tymor canolig i hir, a bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd o hyd fydd yn effeithio ar y Cyngor, staff, defnyddwyr gwasanaethau a thrigolion a chymunedau'r Ynys.

2. PRIF RAGDYBIAETHAU SY'N CODI O'R CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

- 2.1. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (a adroddwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 24 Medi 2024 – Eitem 10) yn nodi nifer o ragdybiaethau (a nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad hwnnw). Ers paratoi'r CATC, mae'r sefyllfa o ran nifer o ragdybiaethau wedi'i hegluro, sydd wedi caniatáu i ragdybiaethau ddod yn fwy sicr. Mae'r rhagdybiaethau hyn wedi'u cymryd i ystyriaeth a'u diweddarau wrth gyfrifo'r gyllideb ddisymyd ar gyfer 2025/26. Mae'r gyllideb ddisymyd yn gyllideb sy'n darparu adnoddau i weithredu gwasanaethau ar lefelau 2024/25 ond wedi'i diweddarau i adlewyrchu unrhyw newidiadau hysbys y tu allan i reolaeth y gwasanaethau (newidiadau ymrwymedig) ac i adlewyrchu'r costau amcangyfrifedig yn 2025/26.
- 2.2. Dylid nodi bod y cyhoeddiadau a wnaed yng nghyllideb Llywodraeth y DU wedi gofyn am ddiweddariad ar ragdybiaethau cyflog ac yswiriant gwladol a hefyd ar ragdybiaethau chwyddiant mewn perthynas â phrif gontractau gwasanaeth a darpariaeth gofal cymdeithasol y Cyngor.
- 2.3. Mae'r rhagdybiaethau hyn wedi'u cynnwys yn y gyllideb ddisymyd, ynghyd â newidiadau mwy manwl (newidiadau ymrwymedig) sy'n caniatáu ar gyfer cynnydd hysbys mewn costau e.e. ymrwymadau cytundebol. Mae'r gyllideb ddrafft hefyd yn caniatáu ar gyfer cyllid ychwanegol, newidiadau hysbys i gyllid grant a mân gywiriadau cyllidebol y bernir eu bod yn angenrheidiol i sicrhau bod cyllideb y Cyngor yn adlewyrchu'n gywir y costau y mae'n eu hwynebu yn 2025/26.
- 2.4. Wrth i'r flwyddyn ariannol symud ymlaen, mae'r pwysau ar wasanaethau a wynebwr gan y gwasanaethau statudol sy'n cael eu harwain gan alw (Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phlant, Digartrefedd, Addysg allsirol a Chludiant Ysgol) wedi dod yn gliriach ac wedi'u cynnwys yn y broses gosod cyllideb (gweler paragraff 4.12).

3. SETLIAD DROS DRO

- 3.1. Mae'r setliad dros dro ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr 2024, yn dangos cynnydd o £410.3m yn lefel gyffredinol y cyllid ar gyfer Cymru, sy'n cyfateb i gynnydd o 7.2% mewn termau arian parod. Mae'r manylion i'w gweld yn Nhabl 1 isod:-

Tabl 1		
Setliad Dros Dro 2025/26		
	Ynys Môn	Cymru
	£'m	£'m
Cyllid Allanol cyfun (AEF) 2024/25	127.586	5,720.524
Addasiad ar gyfer y Newid yn Sylfaen y Dreth	(0.097)	0.000
Grantiau Blynyddoedd Blaenorol a Drosglwyddwyd i Mewn / (Allan)	3.418	156.860
AEF Addasedig 2024/25	130.907	5,877.384
AEF Dros Dro 2025/26	135.605	6,130.839
Cynnydd o gymharu ag AEF Addasedig 2024/25	4.698	253.455
Cynnydd o gymharu ag AEF 2024/25	8.019	410.315
%Cynnydd o gymharu ag AEF addasedig 2024/25	6.29%	7.17%
% Cynnydd o gymharu ag AEF addasedig 2024/25	3.59%	4.31%

- 3.2. Mae nifer o setiau data amrywiol yn cael eu haddasu yn y fformiwla dyrannu, gan gynnwys poblogaeth, nifer y bobl sy'n derbyn budd-daliadau, plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, disgyblion ysgol ac ati, ac mae'r rhain yn effeithio ar y dyraniad i bob awdurdod yn wahanol. Mae rhai awdurdodau yn gwneud yn well o'r addasiadau hyn, tra bod eraill yn cael eu heffeithio'n negyddol ac, o ganlyniad, nid yw pob awdurdod yn cael yr un lefel o gynnydd. Yn setliad dros dro 2025/26, mae ystod o gynnydd o 5.6% (Casnewydd) i lawr i 2.8% (Sir Fynwy). Mae cynnydd Ynys Môn 0.7% yn is na chyfartaledd Cymru, a'r 16eg cynnydd uchaf o'r 22 awdurdod.

- 3.3.** Mae'r Cyngor, drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), yn dal i bwysu am gyllid gwaelodol i'w gynnwys yn y setliad terfynol, a fyddai'n lleihau'r effaith ar Gynghorau sy'n cael setliad sy'n sylweddol is na chyfartaledd Cymru. Rhaid aros i weld a yw Llywodraeth Cymru (LIC) yn darparu cyllid ychwanegol i ganiatáu ar gyfer terfyn isaf yn y setliad terfynol.
- 3.4.** Yn ogystal â'r cyllid heb ei neilltuo y mae'r Cyngor yn ei dderbyn ar ffurf yr AEF, mae holl Gynghorau Cymru yn derbyn cyllid refeniw ychwanegol ar ffurf grantiau penodol, sy'n cyllido gwasanaethau penodol yn unol ag amodau grant a osodwyd gan LIC. Bydd manylion y dyraniadau unigol i bob Cyngor yn cael eu cyhoeddi maes o law, ond mae lefel gyffredinol y cyllid grant i Gymru wedi'i nodi yn y setliad dros dro. Mae Tabl 2 yn nodi'r grantiau mawr y bydd y Cyngor yn eu derbyn:-

Tabl 2
Prif Grantiau Refeniw – Dyraniadau Cymru Gyfan 2024/25 a 2025/26

Grant	Dyraniad 2024/25 £'000	Dyraniad 2025/26 £'000	% Newid
Grant Addysg Awdurdod Lleol	378,973	399,800	+5.50%
Prydau Ysgol Gynradd Gyffredinol Am Ddim	92,756	93,500	+0.80%
Grant Cymorth Ieuencid	11,483	11,483	0.00%
Grant Cynnal Tai	182,488	204,300	+11.95%
Grant Rhwydwaith Bysiau	39,000	40,365	+3.50%
Cefnogaeth Gwasanaethau Bws	24,800	25,772	+3.92%
Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy	16,400	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau
Grant Plant a Chymunedau	179,583	179,583	0.00%
Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol	45,000	45,000	0.00%
Cronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau	41,063	41,063	0.00%
Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid	3,000	3,000	0.00%
Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	2,794	2,794	0.00%

- 3.5.** Fel rhan o gyllideb Canghellor y DU ym mis Hydref 2024, dyrannwyd cyllid ychwanegol i LIC ym mlwyddyn ariannol 2024/25. Yn ogystal, mae cyllid hefyd wedi'i ddarparu i LIC i dalu'r rhan fwyaf o gostau'r cynnydd yng nghyfradd cyfraniadau cyflogwr pensiwn athrawon. Mae LIC wedi cyhoeddi nifer o grantiau ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru y bydd y Cyngor yn eu derbyn yn 2024/25.
- 3.6.** Mae'r cyllid ychwanegol a dderbyniwyd gan y Cyngor a sut mae'n bwriadu defnyddio'r cyllid i'w weld yn Nhabl 3 isod:-

Tabl 3

Cyllid Ychwanegol a Dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2024/25

Teitl Grant	Pwrpas	Grant a Dderbyniwyd £	Sut bydd y Cyngor yn defnyddio'r cyllid
Cymorth pwysau cyflogau 2024/25	Helpu Cyngorau i dalu cost ychwanegol dyfarniad cyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol	1,196,219	Roedd cyllideb 2024/25 yn cwmpasu'r rhan fwyaf o gost y dyfarniad cyflog, a bydd y gweddill yn cael ei gyllido o gronfa wrth gefn clustnodedig benodol. Bydd y grant hwn yn cael ei ychwanegu at falansau cyffredinol y Cyngor.
Cynnydd yng Nghyfraniad Cyflogwr y Pensiwn Athrawon	I gyllido cost ychwanegol y cynnydd yn y gyfradd cyfraniadau pensiwn, sy'n weithredol o 1 Ebrill 2024	1,345,535	Caniatawyd ar gyfer y gost ychwanegol hon yn llawn yng nghyllideb 2024/25. Bydd y grant hwn yn cael ei ychwanegu at falansau cyffredinol y Cyngor.
Cynnydd yng Nghyfraniad Cyflogwr y Pensiwn Diffoddwyr Tân	I gyllido cost ychwanegol y cynnydd yn y gyfradd cyfraniadau pensiwn, sy'n weithredol o 1 Ebrill 2024	62,909	Cynhwysodd Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru y gost ychwanegol yn rhannol yng nghyllideb 2024/25 ac, felly, cafodd ei gyllido gan y cynnydd yn yr ardoll. Mae'r Gwasanaeth Tân yn amcangyfrif y bydd angen £250k ychwanegol ar draws y 6 awdurdod. Bydd hyn yn gofyn i'r Cyngor dalu dros £22,768 o'r grant hwn, gyda'r £40,141 sy'n weddill yn cael ei ychwanegu at y balansau cyffredinol.
Cyllid Ychwanegol Tâl Athrawon	Helpu'r Cyngor i dalu cost dyfarniad cyflogau Athrawon	402,601	Wrth osod y setliad llywodraeth leol, fe wnaeth LIC gynnwys cost y dyfarniad cyflog o 3.7%, ond y dyfarniad cyflog gwirioneddol oedd 5.5%. Wrth osod ei gyllideb, caniatodd y Cyngor 2% ar gyfer y dyfarniad cyflog. O ganlyniad, bydd yr holl grant hwn yn cael ei drosglwyddo i ysgolion ynghyd â chyllid ychwanegol o gronfeydd wrth gefn clustnodedig.
Grant Safonau Ysgolion	Darparu cyllid ychwanegol i ysgolion	807,043	Bydd y grant hwn yn cael ei drosglwyddo i ysgolion a'r Gwasanaeth Addysg.
Gwella cyfraddau rhyddhau o'r ysbyty	Caniatáu i Gyngorau gynyddu gofal yn y gymuned dros y gaeaf	£250,000 (amcangyfrif)	Bydd cyllideb y gwasanaeth yn cael ei chynyddu i ganiatáu ar gyfer prynu darpariaeth ychwanegol.
Cefnogaeth ar gyfer gofal cartref	Cyllid ychwanegol yn dilyn y penderfyniad i gadw'r uchafswm tâl o £100 yr wythnos am ofal yn y cartref	I'w gadarnhau	Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i leihau cost net y gwasanaeth gofal cartref.
	CYFANSWM CYLLID YCHWANEGOL	4,064,307	

- 3.7. Croesewir y cyllid ychwanegol hwn ac mae'n lleihau'r risg y bydd y Cyngor yn gorwario ei gyllideb ar gyfer 2024/25, ond nid yw'r sefyllfa'n amodol ar unrhyw ddigwyddiadau andwyol sylweddol neu gynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau yn ystod ail ran y flwyddyn ariannol. Dylai hyn arwain at gynnydd o £2.58m ym malansau cyffredinol y Cyngor.

4. PRIF NEWIDIADAU I'R GYLLIDEB AR GYFER 2025/26

4.1. Manylir ar y newidiadau mawr rhwng cyllideb derfynol 2024/25 a chyllideb gychwynol 2025/26 isod.

4.2. Chwyddiant Tâl Heblaw Addysgu

4.2.1. Bydd costau cyflog yn newid yn flynyddol i adlewyrchu'r newidiadau mewn staff dros y flwyddyn (staff newydd yn cael eu penodi i bwynt gwahanol ar y raddfa gyflog), staff yn derbyn cynyddrannau blynyddol a'r dyfarniad cyflog. Ni chytunwyd ar ddyfarniad cyflog 2024/25, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2024, tan fis Tachwedd 2024. Gosodwyd y dyfarniad cyflog terfynol y cytunwyd arno fel cynnydd o £1,290 fesul gweithiwr hyd at bwynt 42 ar y raddfa gyflog, a 2.5% ar bob graddfa o bwynt 43 ymlaen. Rhoddodd hyn ystod o gynnydd o 5.77% ar gyfer y pwynt isaf ar y raddfa gyflog, i 2.5% ar gyfer y pwynt uchaf ar y raddfa gyflog. Ar gyfartaledd, arweiniodd y codiad cyflog at gynnydd o 4.0% yng nghostau cyflog heblaw addysgu'r Cyngor. Y cyfanswm a gynhwyswyd yn wreiddiol yng nghyllidebau tâl heblaw addysgu 2024/25 oedd 3.5% ac, felly, mae angen ychwanegu £325k ychwanegol at gyllideb 2025/26 i gywiro'r tanamcangyfrif yng nghyllideb 2024/25.

4.2.2. Wrth bennu lefel dyfarniad cyflog 2025/26, rhaid ystyried bod chwyddiant yn parhau i ostwng a disgwylir iddo ddechrau blwyddyn ariannol 2025/26 ar 2.8% a disgwylir iddo ostwng i 2.1% erbyn mis Mawrth 2026. Fodd bynnag, mae'r Cyflog Byw Cenedlaethol hefyd yn effeithio ar lefel y dyfarniad cyflog. Y Cyflog Byw Cenedlaethol, o fis Ebrill 2024, oedd £11.44 yr awr, sydd £0.82 yn is na chyfradd fesul awr y pwynt isaf ar y raddfa gyflog genedlaethol. Bydd y Cyflog Byw Cenedlaethol yn codi i £12.21 (+ 6.7%) o fis Ebrill 2025, sydd ond £0.05 yn is na chyfradd fesul awr y raddfa gyflog isaf yn 2024/25. Er mwyn cynnal y gwahaniaeth o £0.82 rhwng y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r pwynt isaf ar y raddfa gyflog, byddai angen i'r cyflog isaf godi £1,500. Pe bai'r cynnydd hwn yn cael ei gymhwyso i bob graddfa gyflog, byddai'n cynyddu costau cyflog 4.5% ar gyfartaledd ar draws yr holl raddfeydd cyflog.

4.2.3. Nid yw'r Undebau wedi cyflwyno eu hawliad cyflog eto ond mae'n debygol y byddant yn gofyn am godiad cyflog uwch na chwyddiant o ystyried bod y codiad cyflog a ddyfarnwyd yn 2024/25 yn is na'r dyfarniadau a roddwyd i weithwyr eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, yn absenoldeb unrhyw wybodaeth bellach ar hyn o bryd, mae dyfarniad cyflog tybiedig o 4.5% wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddisymyd, sydd 2% i 2.5% yn uwch na'r rhagdybiaeth o chwyddiant cyffredinol. Mae'n bosibl y bydd angen adolygu hyn cyn cwblhau proses y gyllideb. Byddai 1% ychwanegol yn y rhagdybiaeth chwyddiant cyflog nad yw'n addysgu yn cynyddu'r gyllideb gan £662k.

4.2.4. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau a wnaed, mae'r newidiadau cyflog yn ychwanegu £3.1m at gyllideb y Cyngor.

4.3. Chwyddiant Tâl Addysgu

4.3.1. Mae cyflog athrawon yn newid bob mis Medi. Wrth osod cyllideb 2024/25, gwnaed rhagdybiaeth o 2% ar gyfer y dyfarniad cyflog a ddaeth i rym o fis Medi 2024. Fodd bynnag, y dyfarniad cyflog gwirioneddol oedd 5.5%. Mae LIC wedi cadarnhau y bydd yn cyllido'r gost uwchlaw'r rhagdybiaeth y gwnaethant ei chynnwys yn setliad 2024/25, sef 3.7%. Mae grant o £403k wedi ei dderbyn i gwrdd â'r gost ychwanegol (gwahaniaeth rhwng 5.5% a 3.7%) yn 2024/25.

4.3.2. Nid oes unrhyw wybodaeth wedi'i darparu am y dyfarniad cyflog athrawon sy'n gymwys o fis Medi 2025. Bydd y dyfarniad cyflog hwn yn cwmpasu'r cyfnod Medi 2025 i Awst 2026, ac yn ystod y cyfnod hwnnw disgwylir i chwyddiant ostwng o 2.6% i 1.9%. Mae amcangyfrif o 2% wedi'i gynnwys ar gyfer y dyfarniad cyflog o fis Medi 2025.

4.3.3. Bydd cywiro'r tanddarpariaeth yng nghyllideb 2024/25 yn cynyddu'r gyllideb gan £1.8m, a bydd y cynnydd chwyddiant hyd at Fawrth 2026 yn ychwanegu £0.4m pellach i gyllideb cyflogau'r Cyngor, gyda chynyddrannau a newidiadau staff yn ychwanegu £0.2m pellach.

4.4. Costau Yswiriant Gwladol

4.4.1. Cyhoeddodd y Canghellor ddau newid sylweddol i gyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr, a oedd yn gostwng y trothwy cyflog y mae'n rhaid gwneud cyfraniadau ohono o £9,100 i £5,000 a hefyd yn cynyddu'r gyfradd cyfraniadau o 13.8% i 15%. Mae hyn yn ychwanegu oddeutu £2.2m i gostau staffio'r Cyngor ei hyn, ond bydd hefyd yn effeithio'r costau a wynebwr gan gontractwyr a darparwyr gofal y Cyngor.

4.4.2. Mae'n anodd modelu'n gywir effaith y newidiadau hyn oherwydd bydd y costau ychwanegol yn amrywio yn dibynnu ar yr incwm a enillir, gyda chynnydd canrannol uwch mewn perthynas â gweithwyr ar gyflog is. Y gost amcangyfrifedig yw y bydd y gostyngiad yn y trothwy yn cynyddu cyfraniadau gan £1.5m, ac y bydd y cynnydd yn y gyfradd yn ychwanegu £0.66m arall at y costau.

4.4.3. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi y bydd cyrff y sector cyhoeddus yn cael cyllid ychwanegol i dalu'r gost ac, os bydd hyn yn digwydd yn Lloegr, bydd yn creu swm canlyniadol i LIC drwy fformiwla Barnett. Byddai LIC wedyn yn penderfynu sut i ddsbarthu'r swm i awdurdodau lleol. Mae risg sylweddol na fydd y broses ddyrannu hon yn cael ei chwblhau cyn i'r Cyngor orfod gosod cyllideb derfynol 2025/26 ym mis Mawrth 2025. Mae swm wrth gefn o £2m wedi'i ganiatáu fel cyllid grant ychwanegol.

4.5. Chwyddiant Nad yw'n Gyflogau

4.5.1. Mae chwyddiant wedi parhau i ostwng, gan ddisgyn yn is na tharged Banc Lloegr ym mis Medi 2024 ond, oherwydd costau ynni cynyddol, symudodd yn ôl uwchlaw'r targed ym mis Hydref 2025. Disgwylir iddo godi ychydig yn ystod 2025, gan gyrraedd uchafbwynt rhwng 2.5% a 3%, ond bydd yn dychwelyd i'r lefel darged o 2% erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2025/26.

4.5.2. Roedd rhagdybiaeth y gyllideb ar gyfer cyllideb 2024/25 yn gywir ac nid oes angen unrhyw addasiad i gywiro unrhyw or neu danddarpariaeth ar gyfer chwyddiant yng nghyllideb 2025/26.

4.5.3. Mae costau nad ydynt yn gyflogau'r Cyngor yn cynnwys nifer o wahanol gontractau a dulliau caffael, ac mae chwyddiant yn effeithio ar bob un ohonynt mewn gwahanol ffyrdd:-

- Contractau hirdymor lle mae'r cyfrifiad chwyddiant wedi'i ymgorffori yn y contract gan ddefnyddio mynegeion chwyddiant a bennwyd ymlaen llaw, a defnyddio'r ffigwr ar adeg benodol. Mae'r mathau hyn o gontractau yn tueddu i ffafrio'r Cyngor pan fo cyfraddau chwyddiant yn codi, ond maent yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd gyda mathau arbennig o nwyddau sy'n effeithio ar gostau'r contractwr, e.e. bydd y ffactor chwyddiant ar gyfer y contract casglu sbwriel yn gysylltiedig iawn â chost tanwydd gan fod hyn yn gost fawr i'r contractwr.
- Contractau lle mae'r cynnydd blynyddol yn cael ei drafod. Mae'r rhain, yn bennaf, yn ffioedd cartrefi gofal preswyl a nyrsio a chontractau gofal eraill. Nid Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yw'r prif ffactor ar y codiadau hyn mewn prisiau gan mai staffio yw'r brif gost. Mae lefel chwyddiant yn gysylltiedig â chyflog ac, yn benodol, y cynnydd yn y cyflog byw cenedlaethol a'r cyflog byw go iawn.
- Cytundebau fframwaith tymor hir lle mae'r pris blynyddol yn cael ei osod gan y fframwaith ac nid fel rhan o gytundeb unigol rhwng y Cyngor a'r cyflenwr / contractwr. Mae'r rhain yn cynnwys ein prif gontractau ynni. Eto, bydd y cynnydd pris yn gysylltiedig â ffactorau penodol yn ymwneud â'r nwyddau a gyflenwir, yn hytrach na defnyddio CPI fel sail i'r cynnydd.

- Nwyddau a gwasanaethau a brynir yn ôl yr angen, naill ai trwy broses dendro untro, cael dyfynbrisiau neu'n syml trwy archebu. Mae'r costau hyn yn amodol ar bwysau chwyddiant gan fod y pris y mae'r Cyngor yn ei dalu yn dibynnu ar y pris ar yr adeg y gosodir yr archeb neu pan dderbynnir tendr.
- 4.5.4.** Wrth lunio'r gyllideb ddisymyd, mae lefel chwyddiant fel y'i pennir gan gontract penodol wedi'i chaniatáu. Bydd y ffaith bod y cynnydd chwyddiantol ym mhrif gontractau'r Cyngor yn seiliedig ar lefelau chwyddiant yn yr Hydref y flwyddyn flaenorol (defnyddir chwyddiant Hydref 2024 i uwchraddio cyfraddau contract o Ebrill 2025), yn gweithio ychydig o blaid y Cyngor gan fod y gyfradd yn is na'r gyfradd a ragwelwyd ar gyfer 2025.
- 4.5.5.** Yr un maes a fydd yn effeithio ar y cynnydd chwyddiantol yn y contractau hyn yw'r cynnydd yn y cyflog byw cenedlaethol a'r newidiadau i yswiriant gwladol. Roedd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn caniatáu ar gyfer cynnydd o 3% ar gyfer pob contract mawr. Bydd y newidiadau yswiriant gwladol yn ychwanegu tua 3% at gostau'r contractwr a gallai'r cynnydd yn y cyflog byw cenedlaethol ychwanegu 2% yn uwch na'r hyn a ganiateir yn y CATC. Felly, bydd 5% ychwanegol mewn chwyddiant, yn deillio o'r newidiadau a gyhoeddwyd yn y gyllideb, yn ychwanegu £1.25m pellach at gostau'r Cyngor uwchlaw'r hyn a ganiateir yn y CATC. Cyfanswm y cynnydd chwyddiantol ar gontractau allanol yw £1.84m.
- 4.5.6.** Nid yw'n glir a fydd unrhyw gyllid ychwanegol yn dod gan Lywodraeth y DU a LIC i gwrdd ag effaith tâl ychwanegol a chostau yswiriant gwladol ar gontractwyr y Cyngor. Dylid nodi bod Ynys Môn yn fwy agored i'r risg hon na Chynghorau eraill yng Nghymru gan fod gennym fwy o gontractau allanol (casglu gwastraff, prydau ysgol, cynnal a chadw priffyrdd).
- 4.5.7. Costau Ynni**
- Gwnaeth y Cyngor ail dendro ei gontractau nwy a thrydan yn ystod 2024, gyda'r contractau newydd yn dod i rym ym mis Hydref 2024. Mae'r contractau'n rhedeg am gyfnod o 3 blynedd, gyda'r cyfraddau'n sefydlog am hyd y contract. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor ar gyfer y tymor canolig y bydd yn cael ei warchod rhag unrhyw gynnydd mewn prisiau.
 - Bydd costau ynni yn dal i amrywio gyda defnydd. Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn newid y dull gwresogi mewn nifer o'i adeiladau i bympiau ffynhonnell gwres. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gyllido'n bennaf drwy grantiau LIC. Dylai hyn leihau defnydd a chostau'r Cyngor, er ei bod yn anodd pennu'r effaith ar hyn o bryd ac nid yw'n cael ei chynnwys yn y gyllideb.
- 4.5.8. Chwyddiant Contractau Gofal Gwasanaethau Cymdeithasol**
- Mae'r Cyngor yn gosod ffi flynyddol ar gyfer cartrefi preswyl a nyrsio bob blwyddyn, gyda'r ffigwr hwn yn seiliedig ar y pecyn cymorth a ddefnyddiwyd yn hanesyddol gan Gynghorau Gogledd Cymru ers nifer o flynyddoedd. Mae darparwyr cartrefi gofal wedi gwneud nifer o sylwadau ar lefel leol a chenedlaethol nad yw'r ffioedd presennol yn ddigonol ac y bydd eu busnesau'n dod yn anghynladwy heb gynnydd sylweddol. Mae nifer o ddarparwyr yn anfodlon derbyn lleoliadau am y ffi a osodwyd gan y Cyngor ac mae'r tâl gwirioneddol yn uwch.
 - Mae methodoleg Gogledd Cymru wedi chwalu'n araf, gyda Chynghorau ar draws Gogledd Cymru yn symud oddi wrth y ffigwr a gynhyrchwyd gan y pecyn cymorth i wahanol raddau. Wrth geisio mynd i'r afael â phryderon y darparwyr, mae'r Cyngor wedi cynyddu ffioedd ar gyfartaledd o 22.8% ers Ebrill 2022. Mae hyn wedi cynyddu'r gyllideb ar gyfer ffioedd preswyl a nyrsio, o £8.3m i £10.2m.

- Mae'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn ffactor sylweddol yng nghost y sector preswyl a nyrsio a'r sector gofal cartref, o ystyried bod darparwyr yn defnyddio'r ffigwr hwn fel man cychwyn i bennu cyflog eu gweithwyr. O fis Ebrill 2025, bydd y Cyflog Byw Cenedlaethol yn codi o £11.44 i £12.21, sef cynnydd o 6.7%. Mae hon yn gost na all y darparwyr ei hosgoi ac mae'n debygol o gael ei throsglwyddo i'r Cyngor trwy ffioedd uwch. Mae Fforwm Gofal Cymru yn amcangyfrif mai'r gost fesul preswlydd yr wythnos yw £45.
- Bydd y newidiadau i drothwyon yswiriant gwladol a chyfraddau cyfraniadau cyflogwyr hefyd yn cynyddu'r costau a wynebir gan ddarparwyr. Mae Fforwm Gofal Cymru yn amcangyfrif mai'r gost ychwanegol yw £22 fesul preswlydd yr wythnos.
- Ar ôl cymryd i ystyriaeth y costau y bydd y Cyflog Byw Cenedlaethol yn effeithio arnynt (£45 fesul preswlydd yr wythnos), y newidiadau i yswiriant gwladol (£22 fesul preswlydd yr wythnos) a'r rhai lle mae lefel gyffredinol chwyddiant yn berthnasol (amcangyfrif o £10 fesul preswlydd yr wythnos), mae hyn yn cyfateb i gynnydd o tua 9% ar y ffi gyfartalog. I dalu'r gost hon ynghyd â lwfans ar gyfer cartrefi sy'n codi tâl uwch na'r ffi safonol, mae 10% wedi'i ganiatáu i dalu costau uwch ffioedd cartrefi gofal. Bydd hyn yn cynyddu costau'r Cyngor gan £1m (heb ystyried y cynnydd yn y galw).
- Bydd cyllidebau gofal eraill, gan gynnwys gofal cartref, lleoliadau preswyl yn y Gwasanaethau Oedolion (Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu) a gofal a ddarperir drwy'r cynllun taliadau uniongyrchol hefyd yn cael eu heffeithio gan y cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r newidiadau i yswiriant gwladol. Lle darperir y gofal mewn lleoliad preswyl neu nyrsio, mae'r rhagdybiaeth chwyddiant fel y nodir uchod ond, ar gyfer gofal cartref a chostau taliadau uniongyrchol, rhagdybir y bydd y costau'n cynyddu yn ôl ffactorau cost sy'n ymwneud â staff h.y. 8.7%. Bydd y codiadau hyn yn ychwanegu £1.97m ychwanegol at gyllideb y Cyngor.

4.5.9. Chwyddiant Cyffredinol

- Mae chwyddiant cyffredinol (CPI) wedi disgyn o uchafbwynt o 11% ym mis Hydref 2022 i'w gyfradd gyfredol o 2.3% (Tachwedd 2024). Mae disgwyl iddo aros ar lefel debyg yn ystod mwyafrif 2025, cyn disgyn yn ôl i darged Banc Lloegr o 2% erbyn diwedd 2025. Y gyfradd chwyddiant ar gyfartaledd a amcangyfrifir ar gyfer 2025/26 yw 2.4%, a chywiriad bach i'r swm a ganiateir yng nghyllideb 2024/25 (-0.5%). Bydd hyn yn golygu y bydd 1.9% yn cael ei gymhwyso fel ffigwr chwyddiant cyffredinol i'r mwyafrif o gyllidebau nad ydynt wedi'u cynnwys gan gyfradd chwyddiant benodol.
- Amcangyfrifir y bydd chwyddiant cyffredinol yn cynyddu cyllideb y Cyngor gan £0.93m.

4.5.10. Ffioedd a Thaliadau

- Mae cyllideb y Cyngor yn cynnwys ystod o ffioedd a thaliadau, mae rhai yn cael eu gosod gan LIC, deddfwriaeth benodol neu gyrff allanol eraill, a rhai yn cael eu gosod gan y Cyngor. Cyfanswm y gyllideb ffioedd a thaliadau ar gyfer 2024/25 oedd £12.47m, gyda £5.7m o fewn rheolaeth y Cyngor. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi gosod cynnydd o 3% i ffioedd a thaliadau rheoladwy, er bod rhai codiadau wedi'u cytuno sy'n uwch na 3% (e.e. gwastraff gardd gwyrdd), ond mater i bob gwasanaeth yw pennu'r ffioedd a'r taliadau unigol. Amcangyfrifir y bydd y cynnydd o 3% yn cynhyrchu £170k ychwanegol mewn incwm.
- Mae ffioedd a thaliadau statudol a Grantiau eraill y Llywodraeth yn cyfrif am tua £30m o gyllideb referniw net 2024/25. Byddai cynnydd o 2%, yn unol â CPI, yn cynhyrchu £393k ychwanegol, er bod y setliad amodol yn dangos y bydd rhai grantiau'n cael eu rhewi tra bydd eraill yn cael eu lleihau.

4.6. Niferoedd Disgyblion

Bob blwyddyn, mae effaith y newid yn niferoedd disgyblion yn y sectorau cynradd ac uwchradd yn cael ei gymryd i ystyriaeth fel rhan o'r broses gosod cyllideb, gyda niferoedd disgyblion Medi 2024 yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer cyllideb 2025/26. Ar gyfer 2025/26, mae nifer y disgyblion cynradd wedi parhau i ostwng, gyda gostyngiad pellach o 156 o ddisgyblion, tra bod nifer y disgyblion ysgol uwchradd (blynyddoedd 7 i 11) wedi cynyddu gan 58 o ddisgyblion. Effaith net y newidiadau hyn yw gostyngiad o £528k yn y gyllideb ysgolion cynradd a chynnydd o £233k yn y gyllideb ysgolion uwchradd.

Mae Canolfan Addysg y Bont ar hyn o bryd yn gweithredu yn llawn ac ni all dderbyn disgyblion ychwanegol. Addasir y fformiwla i adlewyrchu unrhyw newid yn nifrifoldeb anghenion ychwanegol disgyblion, sy'n effeithio ar y cymarebau staffio. Ar gyfer 2025/26 mae cynnydd bach o £3k wedi'i ychwanegu at y cyllid i adlewyrchu'r newid hwn.

4.7. Cau Ysgolion

Ym Medi 2024, caewyd 2 ysgol gynradd (Ysgol Carreglefn ac Ysgol Talwrn) gyda dalgyrch yr ysgolion hyn yn trosglwyddo i Ysgol Llanfechell ac Ysgol y Graig. Cedwir y cyllid a arweinir gan ddisgyblion yn y gyllideb ond gwnaed arbedion cyllidebol mewn perthynas â chostau adeiladu a rhai costau sefydlog yn ymwneud â'r ddwy ysgol. Mae hyn wedi caniatáu gostwng y gyllideb datganoledig ysgolion gan £239k, er y bydd rhywfaint o'r arbediad yn cael ei wrthbwyso gan gynnydd yn y costau cyllido cyfalaf yn y dyfodol o ganlyniad i fenthycia a wnaed i adeiladu uned newydd Ysgol Y Graig Fach.

4.8. Ardoll Gwasanaeth Tân

Mae cyllideb y Cyngor yn cynnwys ardollau a godir ar y Cyngor gan gyrff eraill sydd â'r pŵer statudol i osod ardoll. Mae'r brif ardoll a godir gan Awdurdod Tân Gogledd Cymru, sy'n gosod ardoll gyffredinol ar gyfer y 6 awdurdod yng Ngogledd Cymru a chaiff hwn ei ddyrannu ar draws y 6 awdurdod ar sail poblogaeth. Mae Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn bwriadu codi ei ardoll ar y 6 awdurdod cyfansoddol gan 7.17%, sy'n cynyddu'r gyllideb gan £3.47m. Fodd bynnag, oherwydd y newid yn y boblogaeth, mae cyfraniad Ynys Môn i'r ardoll yn disgyn gan 10.03% i 10.02% o gyfanswm yr ardoll. Mae hyn yn arwain at gynnydd yn yr ardoll ar y Cyngor o £342k, sy'n cyfateb i gynnydd o 0.65% yn y Dreth Gyngor. Mae hyn yn mynd â'r ardoll a gyllidir gan y Cyngor i £5.19m.

4.9. Ardoll Cydbwyllgor Corfforaethol

Bellach, mae'n ofynnol i'r 6 Awdurdod yng Ngogledd Cymru sefydlu Cydbwyllgor Corfforaethol (CJC) i fod yn gyfrifol am bolisi strategol trafndiaeth a chynllunio a datblygu economaidd rhanbarthol. Cyfran y Cyngor o'r ardoll a osodwyd ar gyfer 2024/25 oedd £77k. Er nad yw'r CJC wedi gwneud penderfyniad terfynol eto, ni ragwelir y bydd yr ardoll hon yn cynyddu'n sylweddol yn 2025/26, ac mae cynnydd chwyddiant o £3k wedi'i ganiatáu yn y gyllideb.

4.10. Costau Cyllido Cyfalaf

Mae Costau Cyllido Cyfalaf yn cynnwys y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI), taliadau llog blynyddol ar fenthyciadau heb eu talu a llog a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau. Newidiodd y Cyngor y polisi DRI i'r dull blwydd-dal yn 2022, a arweiniodd at ostyngiad sylweddol yng nghyllideb 2023/24. Fodd bynnag, mae'r dull blwydd-dal yn golygu bod y tâl DRI yn cynyddu bob blwyddyn, heb ystyried unrhyw fenthycia newydd a allai fod wedi'i wneud.

Mae lefel balansau arian parod y Cyngor wedi bod yn uchel ers 2020, a'r strategaeth fu rhedeg i lawr y balansau arian parod hyn, yn hytrach na benthyca'n allanol. Fodd bynnag, wrth i gronfeydd wrth gefn a balansau ysgolion y Cyngor fynd yn llai, mae balansau arian parod y Cyngor yn cyrraedd eu lleiafswm a bydd yn rhaid benthyca o'r newydd yn 2025/26 (amcangyfrif o hyd at £15m). Bydd hyn yn cynhyrchu costau DRI a Llog ychwanegol o £707k.

Roedd cyfraddau llog yn eithriadol o isel rhwng 2020 a 2022 ac, o ganlyniad, cynhyrchwyd lefel isel iawn o incwm o fuddsoddiadau. Fodd bynnag, newidiodd y sefyllfa yn 2022 a pharhaodd cyfraddau llog i godi yn 2023. Roedd y cynnydd mewn cyfraddau llog a'r balansau arian parod uchel yn caniatáu gosod cyllideb o £1.036m ar gyfer 2023/24, ond disgynnodd hyn i £670k yn 2024/25.

Rhagwelir y bydd cyfraddau llog yn disgyn yn ystod 2025/26, o'u lefel bresennol o 4.75% i tua 3.25% - 3.5% erbyn mis Mawrth 2026. Yn ystod 2024/25, bu gostyngiad graddol mewn enillion ar fuddsoddiadau o tua 5.2% ar ddechrau 2024/25 i'r cyfraddau presennol o tua 4.6%. Bydd y gostyngiad yn y gyfradd sylfaenol dros y flwyddyn i ddod hefyd yn arwain at ostyngiad yn yr enillion ar fuddsoddiadau, a fydd unwaith eto yn gostwng y gyllideb llog derbyniadwy i tua £450k.

Effaith gyffredinol yr DRI a thaliadau llog yw cynyddu'r gyllideb cyllido cyfalaf gan £0.302m.

4.11. Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Ers 2011, mae'r gost o ddarparu cymorth ariannol i'r rhai sydd angen cymorth i dalu eu Treth Gyngor wedi bod yn rhan o gyllideb y Cyngor, ond mae'r swm a ganiateir yn Asesiad Gwariant Safonol y Cyngor wedi aros bron yn ddigyfnewid. Wrth i lefel y Dreth Gyngor gynyddu a nifer yr hawlwy'r newid, mae cost ychwanegol y cynllun wedi disgyn ar drethdalwyr i'w cyllido. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y cynnydd yn y gyllideb hon a'r cynnydd terfynol yn nhâl y Dreth Gyngor.

Yn 2024/25, roedd y gyllideb gyffredinol i gyllido Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn £7.39m, ond y rhagolwg presennol yw y bydd y gyllideb yn tanwario tua 7%. Mae hyn yn rhoi capasiti i leihau'r gyllideb hon oherwydd llwyth achosion is. Fodd bynnag, caiff hyn ei wrthbwyso gan unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor. Nid yw lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor wedi'i benderfynu'n derfynol eto ond trwy ddefnyddio cyfradd cynnydd dybiedig ar gyfer y Dreth Gyngor a'r gostyngiad tybiedig yn y llwyth achosion, yr effaith net ar y gyllideb hon yw cynnydd o £133k.

4.12. Cyllidebau A Arweinir gan y Galw

Nid yw'r rhagolwg presennol ar gyfer 2024/25 yn nodi y bydd y Cyngor yn profi sefyllfa o orwario sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, sy'n awgrymu nad oes unrhyw bwysau cyllidebol heb ei gyllido. Fodd bynnag, nid yw'r ffigwr pennawd yn cynrychioli'r sefyllfa sylfaenol gan ei fod yn cynnwys gorddarpariaeth yn y gyllideb a gaiff ei chywiro yn y gyllideb ddisymud, arbedion cyllideb untro o swyddi gwag a chostau eraill nad ydynt yn ymwneud â chyflogau a grantiau untro ychwanegol a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn clustnodedig, sy'n darparu cyllid untro, sy'n lleihau lefel y gorwario.

Mae tynnu'r ffactorau hyn allan yn amlygu bod 2 brif gyllideb yn wynebu pwysau galw a chostau sydd angen eu cywiro yng nghyllideb 2025/26. Y meysydd sydd dan bwysau yw cyllidebau gofal cymdeithasol, sy'n darparu gwasanaethau statudol yn bennaf i aelodau mwyaf bregus cymdeithas. Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddarparu'r gwasanaethau a gall fod gofyniad brys i ddarparu gofal i sicrhau bod iechyd neu ddiogelwch y cleient yn cael ei gynnal. Gall nodi lleoliadau ar fyr rybudd, mewn sector lle mae'r galw yn fwy na'r cyflenwad, gynyddu costau'n sylweddol a gall hyn fod y tu allan i reolaeth y Cyngor.

Amcangyfrifir bod y llwyth achosion cynyddol a chostau cynyddol yn y sector gofal yn gofyn am gywiriad cyllideb (yn ogystal â chwyddiant) o £1.27m ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion a £2.24m ar gyfer Gwasanaethau Plant. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y gyllideb ddisymud.

4.13. Defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor

Mae premiwm y Dreth Gyngor ar eiddo gwag ac ail gartrefi yn creu incwm ychwanegol i'r Cyngor, ac mae rhan o'r incwm ychwanegol yma'n cyllido cynlluniau i helpu pobl ifanc lleol i brynu eu tŷ eu hunain ar yr Ynys. Yn 2023/24, dyrannwyd £1.2m o'r cyllid ychwanegol at y diben hwn, ynghyd â £300k i weithredu a gweinyddu gofyniad cynllunio diwygiedig mewn perthynas ag ail gartrefi (erthygl 4). Fodd bynnag, roedd tanwariant o flynyddoedd blaenorol, a oedd wedi cronni mewn cronfa wrth gefn clustnodedig, yn ddigon i gyllido'r gwariant amcangyfrifedig yn 2024/25 ac, o ganlyniad, dilëwyd y gyllideb am flwyddyn. Byddai adfer y gyllideb hon a chaniatáu ar gyfer y cynnydd yn y Dreth Gyngor yn cynyddu gofyniad y gyllideb i £1.85m. Mae'r swm hwn wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddisymyd ond gellir ei newid wrth i'r gyllideb gael ei chwblhau.

4.14. Grantiau sy'n Trosglwyddo i'r Setliad

Mae tri grant yn ymwneud â digartrefedd wedi'u trosglwyddo i'r setliad, gyda gwerth cyfunol o £431k. Mae gwerth y grantiau hyn wedi'u hychwanegu at y gyllideb Digartrefedd.

4.15. Cronfeydd

Fel rhan o'r broses gyllidebu, mae nifer o gyllidebau ar gyfer Digwyddiadau Annisgwyl yn cael eu cynnwys yn y gyllideb i dalu costau cyfnod penodol, risgiau posibl y gallai fod angen eu cyllido yn ystod y flwyddyn, neu fel cronfa wrth gefn gyffredinol ar gyfer Digwyddiadau Annisgwyl a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn wrth i bwysau cyllidebol ychwanegol godi neu wrth i ddigwyddiadau annisgwyl ddigwydd. Mae cadw cyllidebau wrth gefn ar gyfer Digwyddiadau Annisgwyl yn bwysig iawn ac yn sicrhau bod y risg o wariant annisgwyl yn cael effaith negyddol ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor yn cael ei liniaru. Mae oedran a chyflwr presennol stoc asedau'r Cyngor yn cynyddu'r risg y bydd y Cyngor yn wynebu mwy o wariant annisgwyl er mwyn caniatáu i wasanaethau barhau i gael eu darparu o adeiladau lle cyfyd problemau mawr.

Cyfanswm y gyllideb yn 2024/25 oedd £1.357m ac nid yw'r gofyniad cyllideb amcangyfrifedig ar gyfer 2025/26 wedi newid.

4.16. Newidiadau Ymrwymedig Eraill

Wrth lunio'r cyllidebau disymud, gwneir nifer o fân gywiriadau i'r gyllideb i adlewyrchu newidiadau sydd eu hangen neu benderfyniadau blaenorol i gynyddu cyllidebau unigol. Effaith net yr addasiadau hyn yw cynyddu'r gyllideb ddisymud gyffredinol gan £450k. Mae'r prif newidiadau yn ymwneud â'r gostyngiad yn y cyfraniad grant o'r Gymdeithas i'r Oriol £57k, gostyngiad i adlewyrchu'r gostyngiad yn nifer y dyddiau ysgol yn y flwyddyn ariannol £81k, newidiadau ym mhrisiad trethi busnes gan £79k, incwm rhent ychwanegol ar gyfer unedau busnes newydd £119k, a chostau meddalwedd uwch gan £102k. Effaith net yr holl newidiadau yr ymrwymwyd iddynt yw cynnydd o £24k yn y gyllideb.

5. Y SEFYLLFA ARIANNOL

5.1. Ar ôl ystyried y setliad dros dro gan LIC (fel y nodir ym mharagraff 3) a'r prif newidiadau i'r gyllideb (fel y nodir ym mharagraff 4), mae'r sefyllfa gyllido cyn unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor wedi'i nodi yn Nhabl 4 isod:-

Tabl 4			
Bwlch Cyllido Cyllideb 2025/26			
	Cyfeirnod	£'m	£'m
Cyllideb Derfynol 2024/25			184.164
Prif Addasiadau Cyllideb (fel y nodir ym Mharagraff 4)			
Chwyddiant Tâl a Chostau Staffio Eraill	4.2 i 4.4	7.698	
Cyllid Grant Ychwanegol Yswiriant Gwladol	4.4.3	(2.000)	
Chwyddiant Nad yw'n Gyflogau	4.5	3.035	
Niferoedd Disgyblion	4.6	(0.292)	
Cau Ysgolion	4.7	(0.239)	
Ardollau	4.8 a 4.9	0.345	
Costau Cyllido Cyfalaf	4.10	0.302	
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	4.11	0.133	
Gwasanaethau a Arweinir gan y Galw	4.12	3.577	
Defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor	4.13	1.847	
Grantiau sy'n Trosglwyddo i'r Setliad	4.14	0.431	
Cronfeydd ar gyfer Disgwyddiadau Annisgwyl a Newidiadau Ymrwymedig Eraill	4.15 i 4.16	0.024	
			14.861
Cyllideb Refeniw Net Disymud 2025/26			199.025
Cyllidir gan			
Grant Cynnal Refeniw (RSG)		(110.508)	
Cyfran o'r Gronfa Trethi Annomestig		(25.097)	
Cyfanswm Cyllid Allanol Cyfun			(135.605)
Cyllideb y Dreth Gyngor 2024/25 (wedi'i haddasu ar gyfer y newid yn sylfaen y dreth a'r cynnydd yn y premiwm ail gartrefi)			(52.629)
Cyfanswm Cyllid Cyn Cynnydd yn y Dreth Gyngor			(188.234)
Cyllid (Gwarged) / Diffyg (cyn unrhyw newid yn y Dreth Gyngor)			10.791

5.2. Er mwyn cyllidor'rariannu'r diffyg ariannol o £10.791m, byddai angen cynyddu y Dreth Gyngor 20.6%. Byddai hyn yn mynd â thâl Band D i £1,896.21, sef cynnydd blynyddol o £323.91 a chynnydd wythnosol o £6.23. Er mwyn lleihau'r cynnydd yn y Dreth Gyngor, byddai angen defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor ei hun neu weithredu arbedion cyllideb refeniw. Mae pob £1m o arian wrth gefn a ddefnyddir, neu arbedion a weithredir, yn lleihau'r cynnydd yn y Dreth Gyngor gan 1.9%.

6. RISGIAU CYLLIDEBOL

- 6.1. Wrth osod y gyllideb, mae nifer o risgiau ariannol y mae angen eu hasesu a all arwain at gost ariannol i'r Cyngor. Mae rhai o'r risgiau hyn wedi'u caniatáu y gyllideb arfaethedig, ond nid yw eraill wedi'u caniatáu yn y gyllideb a byddent yn cael eu cwmpasu gan falansau a chronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor, pe bai'r risg yn dod yn gost ariannol yn 2025/26. Yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, mae nifer o'r risgiau hyn yn amlwg y tu allan i reolaeth y Cyngor, e.e. galw am ddarpariaeth gwasanaeth statudol, effaith y newidiadau mewn yswiriant gwladol, ardollau a osodir gan gyrff eraill, gofynion gwasanaeth newydd neu newidiol a osodir gan Lywodraeth Cymru a/neu Lywodraeth y DU.
- 6.2. Rhagwelir y bydd lefel gyfredol y Cyngor o falansau cyffredinol heb eu dyrannu yn £11.1m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Gellir trosglwyddo cyllid grant ychwanegol gan LIC o £1.385m mewn perthynas â phensiynau athrawon ac £1.176m mewn perthynas â phwysau yn ystod y flwyddyn, hefyd i'r balansau cyffredinol gan y dylai'r ddarpariaeth bresennol yn y gyllideb fod yn ddigonol. Byddai hyn yn mynd â'r balans amcangyfrifedig i £13.64m, ar yr amod nad yw cyllideb 2024/25 yn gorwario. Fel rheol gyffredinol, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi gosod y balans cyffredinol lleiaf fel 5% o'r gyllideb refeniw net. Yn seiliedig ar y gyllideb refeniw net ddisymud ar gyfer 2025/26 o tua £199m, y swm gofynnol isaf fyddai £9.95m. Mae hyn yn gadael £3.4m posibl ar gael i helpu gyllido'r gyllideb refeniw dros y 2 i 3 blynedd nesaf, ond dylid nodi bod lleihau lefel y balansau cyffredinol a'r arian wrth gefn clustnodedig yn gwanhau sefyllfa ariannol y Cyngor, ac y gallai arwain at anawsterau cyllid yn y dyfodol pe bai angen cyllido unrhyw wariant sylweddol annisgwyl, e.e. cyllido gorwariant refeniw yn y dyfodol.
- 6.3. Mae sefyllfa bresennol cyllideb refeniw 2024/25 yn amcangyfrif y bydd gorwariant bach o 0.5% o'r gyllideb net. Er ei bod yn anodd amcangyfrif lefel derfynol y gwariant yn gywir, ni ddisgwylir ar hyn o bryd y bydd y gorwariant yn codi'n sylweddol, ac ni fyddai'n effeithio'n sylweddol ar lefel y balansau cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.
- 6.4. Wrth lunio'r gyllideb refeniw ddrafft, bu'n rhaid gwneud nifer o ragdybiaethau. Mae'r rhagdybiaethau'n seiliedig ar farn broffesiynol y Tîm Cyllid a staff eraill y Cyngor, rhagolygon allanol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru neu gyrff proffesiynol eraill a gwybodaeth hanesyddol ac ystadegol arall. Manylir ar effaith bosibl gwallau yn y prif rhagdybiaethau ar y gyllideb refeniw isod:-
- **Dyfarniad Cyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol** – fel y nodir ym mharagraff 4.2 uchod, mae'r gyllideb wedi'i chwyddo i adlewyrchu'r dyfarniadau cyflog amcangyfrifedig ar gyfer 2025/26, ond mae ansicrwydd sylweddol o hyd ynghylch y dyfarniadau cyflog. Nid yw'r Undebau wedi cyflwyno eu hawliad ar gyfer 2025/26 eto a bydd lefel y cyflog byw cenedlaethol yn dylanwadu ar y cynnig cyflog. Er mwyn cynnal y gwahaniaeth presennol rhwng pwynt isaf y raddfa gyflog a'r cyflog byw cenedlaethol fel ym mis Ebrill 2025 (£12.44), byddai angen i bob pwynt godi £1,500 y flwyddyn, sy'n cyfateb i gynnydd cyfartalog o 4.5%. Mae pob 1% uwchben y ffigwr hwn yn ychwanegu tua £630k at fil cyflog y Cyngor.
 - **Dyfarniad Cyflog Athrawon** – mae elfen o'r cynnydd yn cael ei gyllido gan LIC drwy'r setliad ac os yw hyn wedi bod yn annigonol, yn hanesyddol, mae LIC wedi darparu cyllid ychwanegol i gwrdd â'r gost. Mae hyn yn lleihau'n sylweddol y risg ariannol a wynebwr gan y Cyngor. Cymhlethir y mater ymhellach gan y ffaith bod codiad cyflog athrawon yn cael ei gymhwyso ym mis Medi bob blwyddyn ac, o ganlyniad, nid oes unrhyw arwydd o beth fydd y dyfarniad cyflog posibl o fis Medi 2025 ymlaen.
 - **Cyflog Byw Cenedlaethol** – cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'r Cyflog Byw Cenedlaethol (a elwid gynt yn isafswm cyflog) yn cynyddu 6.7% ym mis Ebrill 2025, i £12.44 yr awr. Mae'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn rhoi pwysau ar gyllideb y Cyngor mewn dwy ffordd, h.y. yr hyn y mae'n ei dalu i'w staff ei hun (gweler uchod) ond hefyd yr hyn y mae ei brif gontractwyr yn ei dalu i'w staff.

Mae nifer fawr o staff a gyflogir gan brif gontractwyr a darparwyr gwasanaeth y Cyngor yn talu eu staff ar, neu o gwmpas, lefel y Cyflog Byw Gwirioneddol. Mae hyn yn arbennig o wir yn y sector gofal (gofal cartref preswyl a nyrsio, gofal cartref ac ati). Bydd cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol yn arwain at gynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol (ar hyn o bryd mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol £1.58 yr awr yn uwch na'r Cyflog Byw Cenedlaethol). Mae LIC yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau ddarparu cyllid digonol i alluogi darparwyr i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol a bydd y cynnydd yn y ffigwr hwn yn cael ei adlewyrchu yn y cynnydd yn y ffioedd y mae'n rhaid i'r Cyngor eu talu i'w contractwyr a darparwyr gwasanaethau. Er y caniatawyd ar gyfer cynnydd yn y cyllid, mae perygl na fydd yn ddigon i ateb y galw gan ddarparwyr, a allai hefyd fod yn wynebu pwysau o ganlyniad i chwyddiant cyffredinol, yn enwedig costau bwyd, ynni a thanwydd.

- **Chwyddiant Cyffredinol** – Mae'r risg cyllidebol sy'n ymwneud â chwyddiant cyffredinol yn sylweddol is na phan oedd CPI yn fwy na 10%. Er bod risg y gallai chwyddiant godi uwchlaw'r dybiaeth a ddefnyddir yn y gyllideb, bychan iawn fydd lefel y cynnydd posibl (0.5% i 1%) ac ychydig iawn o effaith a gaiff hyn ar gostau gwirioneddol a delir gan y Cyngor.
- **Galw am Wasanaethau** – Mae'r gyllideb ddisymud yn caniatáu ar gyfer darparu gwasanaethau ar y lefel bresennol o alw mewn rhai gwasanaethau lle gall y galw amrywio (Gwasanaethau Plant, Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Digartrefedd, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor). Bydd unrhyw gynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau yn creu costau ariannol ychwanegol i'r Cyngor na fyddent yn cael eu cynnwys yn y cyllidebau presennol.
- **Incwm Grant** – Fel y nodir yn Nhabl 2 uchod, yn ogystal â'r cyllid a dderbynnir drwy'r Cyllid Allanol Cyfun, mae'r Cyngor yn derbyn lefelau sylweddol o gyllid ychwanegol ar ffurf grantiau penodol gan LIC ac eraill. Pan fydd lefel y cyllid grant penodol yn disgyn neu ddim yn cynyddu i adlewyrchu'r cynnydd mewn costau, nid yw bob amser yn bosibl ymateb yn gyflym i'r newid gan fod y gwasanaeth a gyllidir gan y grant yn cael ei integreiddio i'r gwasanaeth a gyllidir o gyllideb graidd y Cyngor. Felly, mae oedi rhwng y gostyngiad mewn cyllid a gallu'r Cyngor i leihau'r gost gysylltiedig drwy ad-drefnu'r gwasanaeth.
- **Targedau Incwm o Ffioedd a Thaliadau** – Wrth i'r argyfwng costau byw leddfu, mae'n bosibl y bydd gan drigolion fwy o incwm gwario, sy'n cynhyrchu incwm i'r Cyngor, yn bennaf drwy wasanaethau Hamdden ac incwm meysydd parcio ac, i raddau llai, ffioedd cynllunio a rheoliadau adeiladu. Mae lefelau incwm yn 2024/25 wedi bod yn dda ac, ar y cyfan, yn rhagori ar dargedau'r gyllideb a, hyd yn oed os bydd lefelau incwm yn dechrau disgyn yn 2025/26, maent yn debygol o aros ar neu o gwmpas targedau'r gyllideb.
- **Cyllid Grant Arall** – Yn ogystal â chyllideb graidd y Cyngor a gyllidir o'r AEF, y Dreth Gyngor a Chronfeydd Wrth Gefn, mae'r Cyngor yn derbyn oddeutu £25 mewn cyllid grant ychwanegol, fel yn Nhabl 2 uchod. Mae'r cyllid hwn yn darparu gwasanaethau ychwanegol neu'n cael ei ddefnyddio i ategu'r cyllid refeniw craidd. Nid yw bob amser yn dilyn bod y grantiau hyn yn cael eu cynyddu yn unol â'r cynnydd yn yr AEF neu lefel gyffredinol chwyddiant. Gellir rhewi rhai grantiau ar lefel y flwyddyn flaenorol. Gall hyn gynyddu'r galw ar y gyllideb graidd gan na all gwasanaethau a gyllidir gan grantiau bob amser gael eu lleihau'n gyflym. I liniaru'r risg hon, mae'r Cyngor yn dal cronfa wrth gefn o £250k y gellir ei defnyddio i ychwanegu at y gyllideb graidd os oes angen.

7. PONTIO'R BWLCH ARIANNU

- 7.1. Mae'r gyllideb ddisymud yn caniatáu ar gyfer cynnydd o £1.273m yn y gyllideb Gwasanaethau Oedolion i adlewyrchu cynnydd tybiedig o 5% yn y galw demograffig / gwasanaeth. Fodd bynnag, mae Gwasanaethau Oedolion wedi gweld cynnydd sylweddol yn ei gyllideb dros y blynyddoedd diwethaf (62% ers 2019/20), nid yw'n gynaliadwy parhau i gyllido pwysau demograffig. Disgwylir, felly, bod yn rhaid i'r gwasanaeth gyllido unrhyw bwysau demograffig trwy ddarparu gwasanaethau mewn ffordd fwy effeithlon, a allai olygu bod angen newid lefel y gwasanaeth a ddarperir a sut y caiff ei ddarparu.

- 7.2. Mae nifer o fesurau arbedion eraill wedi'u nodi, sy'n cael eu crynhoi yn Nhabl 5 isod a manylir arnynt ymhellach yn Atodiad 3:-

Tabl 5	
Crynodeb o Ostyngiadau Cyllideb Arfaethedig 2025/26	
	£'000
Effeithlonrwydd / Moderneiddio / Rhesymoli gwasanaethau	400
Codi Incwm uwchlaw chwyddiant / Cynhyrchu incwm o ffynonellau newydd	239
Gostyngiadau Gwasanaeth	60
Cyfanswm y Gostyngiadau Cyllideb Arfaethedig	699

- 7.3. Yn 2024/25, defnyddiodd y Cyngor gronfeydd wrth gefn clustnodedig, a gynhyrchwyd o danwariant yn y gyllideb o flynyddoedd blaenorol, i gyllido grantiau tai a benthyciadau i helpu prynwyr tro cyntaf. Yn seiliedig ar y fformiwla ddyrannu flaenorol, a chan gymryd lefel dybiedig y Dreth Gyngor i ystyriaeth, byddai'r fformiwla dyrannu yn £1.84m, fodd bynnag, mae'n annhebygol bod digon o alw i ddefnyddio'r holl gyllid hwn. Bydd y gyllideb yn cael ei hadfer ond yn cael ei chapio ar £1m sy'n lleihau'r gyllideb gwariant net gan £0.849m.
- 7.4. Mae'n ofynnol i'r Cyngor neilltuo swm blynyddol i dalu ad-daliadau benthyciad yn y dyfodol wrth iddynt ddod yn ddyledus, gelwir hyn yn Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) ac fe'i cynlluniwyd i sicrhau nad oes angen i genedlaethau'r dyfodol gyllido cost penderfyniadau cyllido a wneir nawr. Diwygiodd y Cyngor ei bolisi DRI yn 2018 ac unwaith eto yn 2022. Roedd adolygu'r polisi yn caniatáu i'r Cyngor ail-gyfrifo'r tâl DRI a godwyd yn y blynyddoedd blaenorol i adlewyrchu'r polisi diwygiedig. Roedd yr ymarfer hwn yn dangos gwahaniaeth o £11m rhwng y tâl cronus a wnaed o dan yr hen bolisiau a'r polisiau newydd, h.y. mae'r Cyngor wedi gorddarparu ar gyfer DRI mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r Côt Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor godi tâl darbodus ac mae'n bosibl ystyried yr orddarpariaeth hon wrth bennu'r tâl ar gyfer 2025/26. Yn seiliedig ar y polisi presennol, dylai'r tâl DRI godi i £1.81m, fodd bynnag, dim ond £392k sydd ei angen i gwrdd ag ad-daliadau benthyciad blynyddol ac mae hyn yn gadael y posibilrwydd i leihau'r tâl DRI gan £1.418m, tra'n parhau i sicrhau bod y Cyngor wedi codi tâl darbodus.
- 7.5. Fel rhan o gyllideb 2024/25, gosodwyd targed i ostwng cyllidebau staffio gan £1m. Roedd hyn am gael ei gyflawni drwy adolygu swyddi a chymryd y cyfle i adolygu strwythurau staffio pan fyddai swyddi gwag yn codi. Yn 2024/25, nodwyd arbedion o £463k, gan nodi £136k pellach ar gyfer 2025/26. Mae hyn yn gadael balans o £401k i'w ddarganfod. Bwriedir gostwng y targed i £599k, a fyddai'n cynyddu'r gyllideb gan £401k.
- 7.6. Yn seiliedig ar y newidiadau uchod i'r gyllideb ddisymud, byddai'r gyllideb ddisymud yn gostwng £3.791m, gan roi gofyniad cyllideb net o £195.234m a byddai'n lleihau'r bwlch cyllido, cyn cynyddu y Dreth Gyngor i **£7.000m**.
- 7.7. Lefel balansau cyffredinol y Cyngor ar ddechrau'r flwyddyn ariannol oedd £11.180m, a bydd y cyllid ychwanegol a dderbyniwyd yn 2024/25 (gweler paragraff 3.5 a Thabl 3 uchod), ynghyd â'r symiau a ddyrannwyd o'r balansau cyffredinol yn ystod 2024/25, yn cynyddu'r balans i £12.658m. Strategaeth ariannol y Cyngor yw cynnal 5% o'r gyllideb refeniw net fel balansau cyffredinol a byddai'r ffigur hwn ar gyfer 2025/26 yn £9.95m, £2.708m yn is na'r balans amcangyfrifedig ar 31 Mawrth 2025 a gellid ei ddefnyddio i helpu i gyllido'r gyllideb yn 2025/26.
- 7.8. Mewn archwiliad diweddar ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor, ac yn yr adroddiad cenedlaethol yn crynhoi canlyniadau'r archwiliad o'r 22 Cyngor, nododd Archwilio Cymru nad oedd defnyddio cronfeydd wrth gefn yn y modd hwn yn gwneud y defnydd gorau o'r cronfeydd wrth gefn, ac y byddai mwy o effaith yn cael ei gael gan ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i gyllido rhaglenni trawsnewid a allai ddarparu gwasanaethau gwell am gost is. Rhaid cadw hyn mewn cof wrth benderfynu ar y defnydd o gronfeydd wrth gefn fel cyllid yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r defnydd o gronfeydd wrth gefn yn caniatáu mwy o amser i'r Cyngor gynllunio ar gyfer newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir i leihau'r gyllideb refeniw net gyffredinol yn 2026/27.

- 7.9. Mae pob cynnydd o 1% yn y Dreth Gyngor yn cynhyrchu £487k mewn treth gyngor safonol a £39k mewn premiwm cartrefi gwag ac ail gartrefi, gan roi cyfanswm o £526k mewn incwm gros. Yn seiliedig ar dâl Band D 2024/25 o £1,572.30, mae pob codiad o 1% yn cynyddu'r tâl Band D o £15.72 neu £0.30 yr wythnos. Mae tâl presennol y Cyngor y 7^{fed} isaf yng Nghymru ac mae £93 yn is na chyfartaledd Cymru.
- 7.10. Mae'r ffaith bod y cyllid gan LIC yn is na'r chwyddiant a'r pwysau galw a wynebir gan y Cyngor yn gofyn am gynnydd uwch na chwyddiant yn y Dreth Gyngor er mwyn i'r Cyngor allu gosod cyllideb wedi'i gyllido'n llawn. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn cynnig cynnydd o 8.85% yn y Dreth Gyngor, ynghyd â 0.65% ychwanegol i gyllido'r cynnydd yn ardoll y Gwasanaeth Tân. Mae hyn yn cynnydd o 9.5% i gyd, sy'n mynd â thâl Band D (ac eithrio praeseptau'r Heddlu a Chynghorau Tref / Cymuned) i £1,721.70, cynnydd o £149.40, neu £2.87 yr wythnos. Amcangyfrifir y bydd y cynnydd hwn yn cynhyrchu £5.000m mewn cyllid ychwanegol.
- 7.11. Yn seiliedig ar yr uchod, mae'r cyllideb refeniw arfaethedig cychwynnol ar gyfer 2025/26 wedi'i nodi yn Nhabl 6 isod:-

Tabl 6		
Cyllideb Arfaethedig Gychwynnol 2025/26		
	£'m	£'m
Cyllideb Refeniw Net sefydlog 2025/26 (yn unol â Thabl 4)		199.025
Addasiadau Ychwanegol i'r Gyllideb		
Capio'r swm a gynhyrchir gan bremiwm y Dreth Gyngor i ddarparu benthyciadau a grantiau i brynwyr tro 1 ^{af} i £1m	(0.849)	
Dim cynnydd demograffig ar gyfer Gwasanaethau Oedolion	(1.273)	
Capio'r tâl DRI dim ond i gwmpasu ad-daliadau benthyciad sy'n ddyledus yn 2025/26	(1.418)	
Arbedion Eraill – gweler Tabl 5 ac Atodiad 3	(0.699)	
Gostwng y targed arbedion staff osodwyd yng nghyllideb 2024/25	0.401	
Cydbwysu i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer Digwyddiadau Annisgwyl	0.048	
		(3.791)
Cyllideb Refeniw Net Arfaethedig Gychwynnol 2025/26		195.234
Cyllidir gan		
Grant Cynnal Refeniw (RSG)	110.508	
Cyfran o'r Gronfa Trethi Annomestig	25.097	
Cyfanswm Cyllid Allanol Cyfun		135.605
Y Dreth Gyngor (gan gynnwys premiwm a chynnydd o 9.5%)		57,629
Balansau Cyffredinol y Cyngor		2.000
Cyfanswm Cyllid		195.234

8. SEFYLLFA'R GYLLIDEB AR GYFER 2026/27

- 8.1. Mae'r newid yn Llywodraeth y DU wedi dangos y potensial ar gyfer mwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau cyhoeddus. Rydym eisoes wedi gweld cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu gan LIC yn 2024/25 a setliad gwell ar gyfer 2025/26 na'r disgwyl cyn yr etholiad cyffredinol.

- 8.2.** Disgwylir y bydd Llywodraeth y DU yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o wariant yng Ngwanwyn 2025, a fydd yn nodi cyllidebau dangosol hyd at ddiwedd senedd bresennol y DU (2029 o bosibl). Gallai hyn ganiatáu i LIC roi setliad dangosol tymor hwy i Awdurdodau Lleol (o bosibl ar gyfer 2026/27 a 2027/28), er y nodir y bydd etholiadau Cynulliad Cymru yn cael eu cynnal ym mis Mai 2026, a allai arwain at newid yn y cynlluniau cyllido tymor hir.
- 8.3.** O ran gwariant, mae'r risg o bwysau chwyddiant yn llawer llai, ond wrth gwrs gall ffactorau allanol effeithio ar lefel chwyddiant. Disgwylir i ddyfarniadau cyflog ostwng hefyd a dylent fod yn fwy unol â chwyddiant yn 2026/27.
- 8.4.** Y risg fwyaf yw cynnydd yn y galw am y gwasanaethau hynny sy'n destun newidiadau sylweddol yn y galw gan gleientiaid (Gwasanaethau Oedolion, Gwasanaethau Plant a Digartrefedd). Mae pennu lefel y gwasanaeth yn anodd, hyd yn oed yn y tymor byr, ac mae ceisio rhagweld lefelau gwasanaeth am gyfnod o 18 mis i 2 flynedd i'r dyfodol yn anodd.
- 8.5.** Wrth osod y gyllideb, mae lefel sylweddol o gyllid untro (balansau cyffredinol) a gostyngiad dros dro mewn cyllidebau (costau cyllido cyfalaf) wedi cael eu defnyddio i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26. Ni all y newidiadau hyn barhau i 2026/27 a bydd hyn yn gofyn am newidiadau parhaol i'r gyllideb er mwyn caniatáu i'r Cyngor gwrdd â'i ofyniad statudol i osod cyllideb wedi'i gyllido'n llawn, heb leihau'r cronfeydd wrth gefn ymhellach, a allai wanhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor y Cyngor.
- 8.6.** Mae'r modelu ariannol presennol yn awgrymu y bydd y gyllideb refeniw net ar gyfer 2026/27 yn codi tua £6m (3%), tra bydd DRI yn codi 2%, sy'n cyfateb i £2.7m. Byddai hyn yn golygu bod angen i'r bwlch cyllido gael ei gyllido gan godiadau y Dreth Gyngor o 6.2%, gan gymryd nad oes arian wrth gefn ar gael bellach i gyllido'r gyllideb.
- 8.7.** Mae'n bosibl y bydd ffynonellau cyllid eraill ar gael yn 2026/27, a thu hwnt, a all gyfrannu at yr adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys unrhyw gyfraddau busnes sy'n cael eu cadw o'r ardaloedd porthladd rhydd dynodedig, cyllid y gellid ei gynhyrchu o gyflwyno Ardoll Ymwelwyr ar Ynys Môn ac unrhyw newidiadau i'r premiwm cartrefi gwag ac ail gartrefi. Bydd y cyntaf yn dibynnu ar gynnydd i ddatblygu'r meysydd porthladd rhydd a bydd yr ail a'r trydydd angen penderfyniadau pellach gan y Cyngor. Ni chymerwyd unrhyw ystyriaeth o'r ffynonellau cyllido posibl hyn, ond caiff hyn ei adolygu wrth i ragor o wybodaeth ddod i'r amlwg.
- 8.8.** Mae cydbwysu cyllideb 2025/26 wedi bod yn hynod heriol ond, yn seiliedig ar y rhagdybiaethau presennol, rhagwelir y bydd y sefyllfa yn 2026/27 yn dechrau gwella. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol i'r Cyngor ddod o hyd i atebion cyllidebol parhaol i ddisodli'r gyllideb sydd wedi'i gyllido gan gronfeydd wrth gefn yn 2025/26. Bydd hyn yn hynod heriol, heb orfod lleihau ansawdd ac ystod y gwasanaethau a ddarperir yn sylweddol. Bydd yn rhaid i arbedion cyllidebol yn y dyfodol gynnwys lleihau neu atal gwasanaethau ac, o bosibl, peidio â chyrraedd y safonau statudol disgwylidig. Mae gwaith eisoes wedi dechrau i nodi arbedion cyllidebol posibl ar gyfer 2026/27, a bydd y cynigion arbedion hyn yn cael eu hystyried ymhellach yn ystod 2025/26.

9. CASGLIAD

- 9.1.** Mae'r gyllideb ar gyfer 2025/26 wedi'i gosod yng nghyd-destun sefyllfa cyllido sy'n gwella a disgwylid y bydd cyllid yn parhau i godi neu gadw i fyny â chwyddiant o leiaf. Fodd bynnag, efallai y bydd y sefyllfa ar gyfer 2026/27 yn parhau i fod yn heriol, gydag ateb parhaol i'r diffyg cyllid sydd ei angen ar gyfer 2025/26 a galw cynyddol am wasanaethau.
- 9.2.** Mae yna hefyd nifer o ffactorau y tu allan i reolaeth y Cyngor a all gael goblygiadau cost sylweddol i'r Cyngor. Nid yw'r sefyllfa gyllidebol heriol a wynebwr gan y Cyngor yn unigryw i Ynys Môn, mae'n sefyllfa sy'n wynebu pob awdurdod lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae rheolaeth ariannol gadarn yn y gorffennol wedi rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa ariannol gref i fynd i'r afael â'r her yn y tymor byr, ond os bydd costau a galw am wasanaethau'n parhau i dyfu ac nad yw'n cael ei gyfateb gan y cynnydd cyllid gofynnol, bydd angen ailstrwythuro sylweddol ar wasanaethau'r Cyngor i atal y Cyngor rhag mynd yn fethdalwr.

- 9.3.** Mae gwasanaethau'r Cyngor yn dibynnu ar ei staff ymroddedig a gweithgar ac mae angen cydnabod yr effaith ar yr aelodau hyn o staff hefyd. Bydd yr her ariannol yn gofyn am ostyngiad mewn lefelau staffio ond, os na chaiff hyn ei ddiwallu gan leihad yn y llwyth gwaith, bydd y pwysau ar staff yn parhau i dyfu ac yn arwain at anawsterau o ran cadw staff presennol, recriwtio staff newydd a sicrhau bod gan y Cyngor weithlu iach. Bydd ymdrin â'r materion hyn yn dod â chost ariannol y bydd yn rhaid ei chynnwys yng nghyllidebau'r dyfodol.
- 9.4.** Mae'r setliad dros dro i lywodraeth leol ar gyfer Cymru fel y'i rhagwelwyd ac nid yw'n cwmpasu'n llawn y pwysau cost a wynebier gan y Cyngor ar hyn o bryd. Mae'n ofynnol i'r gyllideb ddisymud ar gyfer 2025/26 godi 8.1%, ond dim ond 3.6% y mae'r setliad dros dro yn ei ddarparu i'r Cyngor. Mae'r diffyg yn sylweddol ac ni ellir ei wneud yn iawn trwy godi y Dreth Gyngor yn unig.
- 9.5.** Mae'r sefyllfa o ran cyllid grant yn creu her ariannol ychwanegol a fydd yn arwain at leihad mewn rhai gwasanaethau a gyllidir gan grantiau. Daw hyn yn gliriach unwaith y bydd dyraniad unigol pob grant yn hysbys.
- 9.6.** Mae rheolaeth ariannol ddarvoudus mewn blynyddoedd blaenorol wedi cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor yn sylweddol ac wedi cynyddu lefel balansau cyffredinol y Cyngor a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig. Mae'r sefyllfa ariannol well hon wedi galluogi'r Cyngor i gyflwyno cyllideb arfaethedig sy'n caniatáu i'r cynnydd yn y Dreth Gyngor fod mor isel â phosibl, er bod yn rhaid iddo fod yn uwch na'r gyfradd chwyddiant gyffredol.
- 9.7.** Mae lefel o risg yn gysylltiedig â'r gyllideb, yn enwedig a oes darpariaeth ddigonol wedi'i gwneud ar gyfer codiadau cyflog a'r galw cynyddol am wasanaethau. Mae'r risg yn cael ei liniaru drwy'r ffaith bod y Cyngor yn dal balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig y gellid eu hailgyfeirio i gyllido unrhyw gostau ychwanegol, ac mae hyn yn amlygu pwysigrwydd cynnal lefel iach o arian wrth gefn.
- 9.8.** Fodd bynnag, mae'r defnydd parhaus o gronfeydd wrth gefn i fantoli'r gyllideb yn anghynaliadwy ac yn gwanhau gwytnwch ariannol y Cyngor. Mae'r defnydd o gronfeydd wrth gefn yn galluogi'r Cyngor i adolygu ei ofynion cyllidebol yn y tymor hir, lle mae'n rhaid i'r gwasanaethau a ddarperir gael eu hail-alinio â'r cyllid craidd sydd ar gael.
- 9.9.** Mae'r gyllideb arfaethedig yn dechrau'r broses o leihau'r ddarpariaeth gwasanaeth, ond bydd yn rhaid gweithredu gostyngiadau sylweddol pellach mewn gwasanaethau yn 2026/27 a thu hwnt i alluogi'r Cyngor i barhau i osod cyllideb gytbwys ac i gadw codiadau y Dreth Gyngor i lefel resymol a fforddiadwy. Mae methu â gwneud hynny yn cynyddu'r risg y bydd y Cyngor yn dod yn anghynaliadwy yn ariannol erbyn 2026/27 neu 2027/28.

10. MATERION I'W PENDERFYNU

- 10.1.** Ni fydd y gyllideb derfynol yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor llawn tan 6 Mawrth 2025, fodd bynnag, ar hyn o bryd, argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r canlynol:-
- Y gyllideb arfaethedig gychwynnol ar gyfer 2025/26 o £195.234m;
 - Cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor o 8.85%, ynghyd â 0.65% i dalu'r Ardoll Tân = Cyfanswm o 9.50%, gan fynd â thâl Band D i £1,721.70;
 - Cynnig yn ffurfiol i gadw'r premiwm ar gartrefi gwag ac ail gartrefi ar 100%;
 - Bod £2.000m yn cael ei ryddhau o falansau cyffredinol y Cyngor a'r arian wrth gefn clustnodedig er mwyn cydbwysu cyllideb refeniw 2025/26.

CYLLIDEB ARFAETHEDIG 2025/26 YN ÔL GWASANAETH				
Cyllideb	Cyllideb 2024/25	Cyllideb Arfaethedig 2025/26	Symudiad	% Newid
	£'m	£'m	£'m	%
Dysgu Gydol Oes				
Ysgolion	53.067	55.538	2.471	4.66
Addysg Ganolog	13.307	13.931	0.624	4.69
Diwylliant	1.555	1.666	0.111	7.14
Cyfanswm Dysgu Gydol Oes	67.929	71.135	3.206	4.72
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo				
Priffyrdd	8.215	8.497	0.282	3.43
Eiddo	1.993	1.833	(0.160)	(8.03)
Gwastraff	10.108	10.333	0.225	2.23
Cyfanswm Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	20.316	20.663	0.347	1.71
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd				
Datblygu Economaidd a Morwrol	3.013	2.975	(0.038)	(1.26)
Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd	2.896	3.102	0.206	7.11
Cyfanswm Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	5.909	6.077	0.168	2.84
Gwasanaethau i Oedolion	38.454	43.048	4.594	11.95
Gwasanaethau Plant	14.434	17.556	3.122	21.63
Trawsnewid Corfforaethol				
Adnoddau Dynol	1.695	1.825	0.130	7.67
TGCh	4.705	5.082	0.377	8.01
Trawsnewid	1.244	1.202	(0.042)	(3.38)
Cyfanswm Trawsnewid Corfforaethol	7.644	8.109	0.465	6.08
Tai	1.660	2.037	0.377	22.71
Adnoddau	4.018	4.225	0.207	5.15
Busnes y Cyngor	2.125	2.213	0.088	4.14
Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth	162.489	175.063	12.574	7.74
Cyllidebau Corfforaethol				
Rheolaeth Gorfforaethol	0.802	0.823	0.021	2.62
Ardollau	4.931	5.277	0.346	7.02
Corfforaethol a Democraidaidd	2.079	2.238	0.159	7.65
Costau Ariannu Cyfalaf	5.753	4.637	(1.116)	(19.40)
Budd-daliadau a Roddwyd	0.109	0.110	0.001	0.92
Ad-daliadau Cyfrif Refeniw Tai	(0.800)	(0.840)	(0.040)	5.00
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	7.283	7.416	0.133	1.83
Cynlluniau at Raid	2.107	1.404	(0.703)	(33.36)
Arbedion Staff i'w canfod	0.000	(2.000)	(2.000)	
Rhyddhad Ardrethi Dewisol	(0.694)	0.000	0.694	(100.00)
Benthyciadau a Grantiau Tai	0.105	0.106	0.001	0.095
Cyfanswm Cyllidebau Corfforaethol	0.000	1.000	1.000	
	21.675	20.171	(1.504)	(6.94)
CYFANSWM CYLLIDEB	184.164	195.234	11.070	6.01

LLEIHAD ARFAETHEDIG YN Y GYLLIDEB AR GYFER 2025/26

Categori	Gwasanaeth	Cynnig	£
Effeithlonrwydd / Moderneiddio / Rhesymoli gwasanaethau	Gwasanaethau Plant	Defnyddio AI i leihau costau gweinyddol mewn perthynas â chynadleddau achos	36,000
	Datblygu Economaidd a Morwrol	Dileu gweddill y gyllideb mewn perthynas ag achredu traethau baner las	11,500
	Pob Gwasanaeth	Dileu cyllidebau cyflenwadau a gwasanaethau nas defnyddiwyd	175,000
	Gwasanaethau Oedolion	Rhesymoli darpariaeth gwasanaethau dydd i gleientiaid ag anableddau corfforol a dysgu	177,000
CYFANSWM ARBEDION O EFFEITHLONRWYDD / MODERNEIDDIO A RHESYMOLI GWASANAETHAU			399,500
Codi Incwm uwchlaw chwyddiant / Cynhyrchu incwm o ffynonellau newydd	Tai	Cynyddu'r ffi am fynediad i'r gofrestr Opsiynau Tai	10,500
	Tai	Cyllido costau staffio o ad-daliad uwch i'r CRT ac o gyllid grant / cronfeydd wrth gefn clustnodedig	69,200
	Datblygu Economaidd a Morwrol	Gwella dulliau bilio a chasglu ar gyfer incwm morwrol a chynyddu rhai ffioedd uwchlaw chwyddiant	30,000
	Eiddo	Cychwyn codi tâl am wasanaeth, yn unol â'r cytundebau prydles ar gyfer unedau diwydiannol a busnes	32,500
	Priffyrdd	Cynyddu ffioedd uwch na'r lefel chwyddiant a ganiateir yn y gyllideb ddisymud	60,000
	Gwastraff	Cynyddu'r ffi am y gwasanaeth gwastraff gardd gwyrdd gan swm sy'n uwch na'r lefel chwyddiant a ganiateir yn y gyllideb ddisymud	37,500
CYFANSWM ARBEDION O GYNHYRCHU INCWM			239,700
Gostyngiadau Gwasanaeth	Gwastraff	Lleihau cyfanswm y diwrnodau mae'r canolfannau ailgylchu ar agor o 10 diwrnod yr wythnos i 8 diwrnod yr wythnos (Penhesgyn dydd Mercher i ddydd Sul, Gwalchmai ddydd Sul i ddydd Mawrth)	60,000
CYFANSWM ARBEDION O OSTYNGIADAU GWASANAETH			60,000
CYFANSWM CYNIGION ARBEDION			699,200

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN							
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith						
Dyddiad:	21 ^{ain} Ionawr 2025						
Pwnc:	Cartrefi'r Awdurdod Lleol i Bobl Hŷn - Pennu'r Ffi Safonol 2025/26						
Aelod Portffolio:	Y Cynghorydd Alun Roberts						
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Arwel Wyn Owen, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion						
Awdur yr Adroddiad: Ffôn: E-bost:	Carwyn Edwards, Rheolwr Cyllid 01248 752699 CarwynEdwards@ynysmon.llyw.cymru						
Aelodau Lleol:	Pob Aelod						
A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau							
<p><u>Argymhelliad</u></p> <p>A1 - Argymhellir codi cost lawn ar gyfer gwasanaeth Cartrefi Preswyl, sef £983.86 yr wythnos, yn 2025/26.</p> <p>A2 – Argymhellir bod cost lawn ar gyfer y gwasanaeth Cartrefi Preswyl EMI yn cael ei gyflwyno dros gyfnod o 3 blynedd, gan olygu fod cost lawn y gwasanaeth yn cael ei ostwng i £1,046.41 yr wythnos yn 2025/26.</p> <p>Mae angen i'r Awdurdod Lleol bennu lefel ei ffi safonol ar gyfer cartrefi gofal yr awdurdod lleol ar gyfer y flwyddyn Ebrill 2025 - Mawrth 2026.</p> <p>Mewn blynyddoedd blaenorol, cyfunwyd costau holl gartrefi'r Cyngor (ac eithrio Garreglwyd a Phlas Crigyll, sy'n cael eu hystyried yn ddarpariaethau gwasanaeth arbenigol) i gyfrifo ffi safonol gyfartalog ar gyfer gofal preswyl safonol, yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol.</p> <p>Yn 2024/25, cyfrifwyd Ffi Safonol o £927.77 yr wythnos ar gyfer gofal Preswyl, yn seiliedig ar gyfraddau defnydd o 93% ar draws y 3 cartref preswyl mewnol (ac eithrio Garreglwyd a Phlas Crigyll, sydd yn ddarpariaethau ar gyfer pobl hŷn bregus eu meddwl (EMI)).</p> <p>Argymhellir ein bod yn cyflwyno ffi ar wahân ar gyfer gofal Preswyl EMI o 2025 /26 ymlaen.</p> <p>Dylid bod yn ofalus wrth gymharu'r ffi safonol gyda ffioedd awdurdodau eraill oherwydd, er gwaethaf y canllawiau, efallai nad yw awdurdodau eraill wedi cyfrifo'r ffi ar union yr un sail.</p> <p><u>Ffioedd Cartrefi Gofal Preswyl</u></p> <p>Mae'r tabl canlynol yn cyfrifo amcangyfrif o'r gost fesul wythnos breswyl ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2026, yn seiliedig ar lefelau defnydd a chostau rhedeg yn 2024/25 ynghyd â chynnydd ar gyfer chwyddiant:-</p> <table border="1"> <tbody> <tr> <td>Nifer y Gwelyau sydd ar gael</td> <td>77</td> </tr> <tr> <td>Amcangyfrif o'r Cyfraddau Defnydd yn seiliedig ar ddata 2024/25</td> <td>93.00%</td> </tr> <tr> <td>Amcangyfrif o Nifer yr Wythnosau Preswyl yn seiliedig ar ddata 2024/25</td> <td>3,733.95</td> </tr> </tbody> </table>		Nifer y Gwelyau sydd ar gael	77	Amcangyfrif o'r Cyfraddau Defnydd yn seiliedig ar ddata 2024/25	93.00%	Amcangyfrif o Nifer yr Wythnosau Preswyl yn seiliedig ar ddata 2024/25	3,733.95
Nifer y Gwelyau sydd ar gael	77						
Amcangyfrif o'r Cyfraddau Defnydd yn seiliedig ar ddata 2024/25	93.00%						
Amcangyfrif o Nifer yr Wythnosau Preswyl yn seiliedig ar ddata 2024/25	3,733.95						

	Costau Rhedeg a Ragwelir 2025/26 £	Ffi Safonol 2025/26 £	Ffi Safonol 2024/25 £
Amcangyfrif o Gostau Rhedeg ar gyfer 2025/26, yn seiliedig ar gostau rhedeg 2024/25 + chwyddiant	3,283,962	879.49	832.80
Ychwanegu - Dibrisiant	227,337	60.88	53.55
- Gwasanaethau Cymorth	162,386	43.49	41.42
CYFANSWM	3,673,685	983.86	927.77
Cynnydd o'i gymharu â'r ffi safonol yn 2024/25	6.05%		£56.09

Yn seiliedig ar y tabl uchod, yr amcangyfrif o'r gost fesul wythnos breswyllo am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2026 yw £983.86.

Mae'r gost a amcangyfrifir fesul wythnos breswyllo ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2026 yn uwch o gymharu â'r gost a amcangyfrifwyd ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025. Cynnydd mewn chwyddiant a gostyngiad mewn cyfraddau defnydd sydd i gyfrif am hyn.

Ffioedd Cartrefi Gofal Preswyl EMI

Mae'r tabl isod yn cyfrifo amcangyfrif o'r gost fesul wythnos breswyllo ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2026, yn seiliedig ar lefelau defnydd a chostau rhedeg yn 2024/25 ynghyd â chynnydd mewn chwyddiant:-

Nifer y Gwelyau sydd ar gael	51
Amcangyfrif o'r Cyfraddau Defnydd yn seiliedig ar ddata 2024/25	93.00%
Amcangyfrif o Nifer yr Wythnosau Preswyllo yn seiliedig ar ddata 2024/25	2,393.36

	Costau Rhedeg a Ragwelir 2025/26 £	Ffi Safonol 2025/26 £	Ffi Safonol 2024/25 £
Amcangyfrif o Gostau Rhedeg ar gyfer 2025/26, yn seiliedig ar gostau rhedeg 2024/25 + chwyddiant	2,524,905	1,054.96	832.80
Ychwanegu - Dibrisiant	170,719	71.33	53.55
- Gwasanaethau Cymorth	108,257	45.23	41.42
CYFANSWM	2,803,881	1,171.52	927.77

Cynnydd o'i gymharu â'r ffi safonol yn 2024/25, yn seiliedig ar gost lawn y gofal	26.27%	£243.75
---	---------------	----------------

Yn seiliedig ar y tabl uchod, yr amcangyfrif o'r gost fesul wythnos breswyl am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2026 yw £1,171.52. Mae hyn yn gynydd o £187.66 o gymharu â'r gyfradd breswyl o £983.86 ar gyfer 2025/26.

Argymhellir bod y cynnydd yn cael ei gyflwyno dros gyfnod o 3 blynedd. Felly, rydym yn bwriadu cynyddu'r ffi EMI i £1,046.41 yn 2025/26, gyda chynnydd pellach yn 2026/27 a 2027/28 fel bod y ffi yn cyfateb i gost wirioneddol y gofal erbyn 1 Ebrill 2027.

	% Cynnydd	Ffi Safonol 2025/26 £	Ffi Safonol 2024/25 £
Ffi Safonol EMI (Cost Lawn)	26.27	1,171.52	927.77
Ffi Safonol Gofal Preswyl (Cost Lawn)	6.05	983.86	927.77
Y gwahaniaeth rhwng y Ffi Safonol EMI a'r Ffi Safonol Gofal Preswyl		187.66	0.00
1/3 o'r gwahaniaeth rhwng y Ffi Safonol EMI a'r Ffi Safonol Gofal Preswyl		62.55	0.00
Cyfradd EMI Arfaethedig ar gyfer 2025/26	12.79	1,046.41	927.77

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Wrth osod y ffi safonol, dilynir dull a bennir lle na chaniateir ystyried opsiynau. Mae'n bosibl i'r Pwyllgor Gwaith bennu ffi sy'n wahanol i'r Ffi Safonol. Mae codi llai na'r ffi safonol yn golygu y byddai'r Cyngor yn sybsideiddio cost gofal cleientiaid y nodwyd bod ganddynt y modd ariannol i dalu am gost lawn eu gofal. O ganlyniad, mae'r opsiwn wedi'i ddiystyru.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Yn unol ag Adran 22 Deddf Cymorth Gwladol 1948, mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol bennu'r Ffi Safonol ar gyfer eu cartrefi.

CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae'r penderfyniad hwn yn gyson â Pholisi Cenedlaethol, fel yr amlinellir yn adran C uchod.

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Bydd pennu'r ffi ond yn effeithio ar nifer fach o gleientiaid sy'n talu am gost lawn eu gofal. Ni fydd y penderfyniad hwn yn cael fawr o effaith ar anghenion hirdymor yr Ynys.
---	---	---

2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Mae'r penderfyniad yn dileu'r cymhorthdal y mae'r Cyngor yn ei ddarparu i'r cleientiaid hynny y nodwyd bod ganddynt y modd i dalu am gost lawn eu gofal.
3	A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhwch wybod gyda phwy?	Amherthnasol
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	Amherthnasol
5	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Amherthnasol
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Byddai'r penderfyniad yn effeithio ar y cleientiaid sydd wedi cael eu hasesu fel rhai sydd â'r modd i dalu am gost lawn eu gofal. Nid yw'r grŵp hwn yn un sy'n profi anfantais economaidd - gymdeithasol.
7	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Dim effaith ar y Gymraeg.
E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Amherthnasol
7	Sgriwtini	
8	Aelodau Lleol	Amherthnasol
9	Unrhyw gyrrff allanol / eraill	Amherthnasol
F - Atodiadau:		
Dim		
Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
Dim		

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	21 Ionawr 2025
Pwnc:	Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Dibreswyl yn y Gymuned - Ffioedd a Thaliadau 2025/26
Aelod Portffolio:	Y Cynghorydd Alun Roberts
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Arwel Wyn Owen
Awdur yr Adroddiad:	Carwyn Edwards, Rheolwr Cyllid
Ffôn:	01248 752699
E-bost:	CarwynEdwards@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Pob Aelod
A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau	
<p><u>Argymhelliad</u></p> <p>Codi'r uchafswm a ganiateir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gofal cartref a chynyddu'r swm a godir am wasanaethau eraill fel yr amlinellir yn y crynodeb isod. Mae'r argymhellion wedi'u crynhoi ar ddiwedd yr adran hon (A1 – A9).</p> <p>1. Cefndir</p> <p>Mae'n arferol adolygu'r taliadau mewn perthynas â gwasanaethau gofal cartref bob blwyddyn i gyd-fynd ag adolygiad y Llywodraeth Ganolog o lefelau budd-daliadau a phensiynau.</p> <p>Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r ffioedd a thaliadau a godir am ofal cymdeithasol dibreswyl yn y gymuned yn 2025/26, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.</p> <p>2. Gwasanaethau Gofal Cartref</p> <p><u>Taliadau Gofal Cartref 2025/26</u></p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau yn eu setliad eu bod yn cadw'r cap gofal ar £100.00 yr wythnos. Byddwn yn codi tâl hyd at yr uchafswm a ganiateir gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>3. Taliadau Teleofal</p> <p>Mae gwasanaethau Teleofal yn cefnogi pobl i fyw'n annibynnol yn y cartref drwy ddarparu cymorth ac ymateb 24 awr o'r dydd, 7 diwrnod o'r wythnos drwy wasanaeth monitro o bell trwy linell ffôn. Mae modd gosod synwryddion ychwanegol i helpu i adnabod risgiau amlwg, e.e. codymau, gwres, dŵr, ayb.</p> <p>Rhaid ystyried y ffactorau canlynol wrth bennu tâl teg am y gwasanaeth Teleofal:-</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cyfraniad yr Awdurdod Lleol i'r Gwasanaeth Monitro Galw Gofal Rhanbarthol; - Taliadau cynnal a chadw; - Costau offer Teleofal; - Costau cyllid a gweinyddu; 	

- Costau gosod;
- Costau ailgylchu offer;
- Costau archwiliadau gweledol lechyd a Diogelwch ddwywaith y flwyddyn;
- Effaith ar fusnes cyfredol;
- Trawsnewid a moderneiddio gan ddefnyddio technoleg.

Rydym wrthi'n newid o system Analog i system Ddigidol ar hyn o bryd, a rhagwelir y bydd pob defnyddiwr gwasanaeth sy'n talu wedi trosglwyddo i'r plattform Digidol erbyn 31 Mawrth 2025. Rydym yn cynnig cynnydd o 1.7% yn y taliadau Teleofal, wedi'i dalgrynnu i'r £0.10 agosaf. Yn ogystal, rydym wedi ychwanegu tâl atodol o £0.10 yr wythnos at y ffioedd i gwrdd â chost uwchraddio systemau Technoleg Galw Gofal.

Tabl A: Taliadau Arfaethedig Teleofal ar gyfer 2025/26

Haen 1 Offer Digidol, gwasanaeth a chynnal a chadw (uned, larwm gwddf a larwm mwg)	Bydd pawb yn talu £78.00 y chwarter. (£6.00 yr wythnos).
Haen 2 Offer Digidol, gwasanaeth, monitro a chynnal a chadw (Offer heblaw uned, larwm gwddf a larwm mwg)	Bydd pawb yn talu £153.40 y chwarter. (£11.80 yr wythnos)

Tabl B – Taliadau Teleofal Blynyddol ar gyfer 2025/26

	2024/25	Taliadau Arfaethedig 2025/26
Gwasanaeth a Chynnal a Chadw	£140.00	£142.50
Gwasanaethau yn unig	£90.00	£91.50
Costau Gosod Unwaith ac am Byth	£56.00	£57.00

4. Taliadau Uniongyrchol

Mae Taliadau Uniongyrchol yn galluogi unigolion i brynu drostynt eu hunain y gwasanaethau y byddai'r Awdurdod Lleol wedi eu darparu ar eu cyfer fel arall. Mae Taliadau Uniongyrchol yn cefnogi byw'n annibynnol drwy alluogi unigolion i wneud eu penderfyniadau eu hunain a bod â rheolaeth dros eu bywydau eu hunain. Yng Nghymru, mae'r Cynllun wedi cael ei ymestyn yn raddol i gynnwys:-

- Pobl Hŷn;
- Gofalwyr;
- Rhieni Plant ag Anableddau;
- Oedolion ag Anableddau.

Pennwyd cyfradd Taliadau Uniongyrchol o £15.95 yr awr ar gyfer 2024/25. O ganlyniad i gynydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol, rydym yn cynnig codi'r ffi i £16.80 yr awr yn 2025/26.

Micro Ofalwyr

Oherwydd heriau recriwtio hirdymor ym maes gwasanaethau gofal cartref, mae'r Adran yn argymhell cyfradd newydd i geisio recriwtio micro ofalwyr. Bydd y ddarpariaeth yn debyg i gynlluniau sydd eisoes yn cael eu gweithredu mewn awdurdodau lleol eraill. Er mwyn cael eu hystyried, bydd rhaid i ymgeiswyr fodloni'r safonau sydd wedi'u gosod gan yr awdurdod lleol a chydymffurfio â gofynion cofrestru AGC. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, caniateir i ficro ofalwyr ofalu am hyd at 3 unigolyn a byddant yn gweithredu fel gweithwyr hunangyflogedig. I gydnabod y gofynion ychwanegol, mae'r raddfa fymryn yn uwch na'r raddfa ar gyfer Taliadau Uniongyrchol ond yn is na'r gost fesul uned a godir gan ddarparwyr annibynnol ar Ynys Môn. Y bwriad yw ceisio denu darpariaeth newydd o fewn y sector a chynyddu'r opsiynau sydd ar gael yn y gymuned. Rydym yn cynnig cyfradd o £19.00 yr awr ar gyfer Micro Ofalwyr.

Moderneiddio'r Cynllun Bathodyn Glas yng Nghymru

Argymhellir codi tâl o £10 am bob bathodyn mewn perthynas â bathodynnau sefydliadol a bathodynnau newydd (yn lle rhai a gollwyd neu a gafodd eu dwyn) yn 2025/26.

Prynu Gwasanaethau Gofal Dydd mewn Cartrefi Gofal Preswyl Annibynnol

Y taliad am brynu gwasanaethau dydd yn 2024/25 oedd £44.33 y dydd. Rydym yn cynnig cynyddu'r ffi ar gyfer 2025/26 i £45.10 y dydd. Bydd y cynnydd hwn o gymorth i sicrhau cynaliadwyedd a pharhad gwasanaethau gofal dydd a brynir gan gartrefi gofal preswyl annibynnol, a cwrdd ag anghenion unigol y defnyddwyr gwasanaeth.

Ffioedd Gofal Cartref

Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion yn comisiynu gofal cartref gan y sectorau annibynnol, yn dilyn ymarfer tendro yn 2023. Mae amodau'r contract yn nodi bod rhaid i ni ddarparu ar gyfer cynnydd statudol mewn deddfwriaeth, sydd gyfystyr â chynnydd o £1.73 yr awr o ganlyniad i gynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol yn 2025/26.

Prydau mewn Gwasanaethau Dydd

Ar gyfer 2025/26, rydym yn argymhell cynnydd o 1.7% ar y ffioedd (wedi'i dalgrynnu i'r £0.05 agosaf):-

Tabl C - Taliadau Prydau mewn Gwasanaethau Dydd ar gyfer 2025/26

	2024/25	Costau Arfaethedig 2025/26
Prydau mewn Gwasanaethau Dydd i oedolion (ac eithrio pobl ag anableddau dysgu)	£7.65	£7.80
Byrbryd ganol dydd mewn Gwasanaethau Dydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu	£3.25	£3.30
Lluniaeth arall (te / coffi / teisen) mewn Gwasanaethau Dydd	£1.80	£1.85

Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r canlynol:-

A1 Codi'r uchafswm a ganiateir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gofal cartref.

A2 Y taliadau ar gyfer gwasanaethau Teleofal, fel yr amlinellir yn Nhabl A:-

Haen 1 – bydd pawb yn talu **£78.00** y chwarter;

Haen 2 – bydd pawb yn talu **£153.40** y chwarter.

A3 Y Taliadau Teleofal Blynnyddol, fel yr amlinellir yn Nhabl B:-

Gwasanaethau a Chynnal a Chadw **£142.50**;

Gwasanaethau yn unig **£91.50**;

Costau gosod unwaith ac am byth **£57.00**.

A4 Cyfradd o **£16.80 yr awr** ar gyfer Taliadau Uniongyrchol.

A5 Gweithredu tâl o **£19.00 yr awr** ar gyfer Micro Ofalwyr.

A6 Cadw'r taliad o **£10.00** ar gyfer gweinyddu ceisiadau am Fathodynau Glas a darparu bathodynau newydd, fel yr amlinellwyd.

A7 Cynnydd o 1.7%, i **£45.10 y dydd**, yn y ffi ar gyfer prynu gwasanaethau gofal dydd mewn cartrefi preswyl annibynnol (wedi'i dalgrynnu i'r £0.05 agosaf).

A8 Cynnydd o **£1.73 yr awr** mewn ffioedd Gofal Cartref, er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth newydd.

A9 Taliadau am Brydau mewn Gwasanaethau Dydd fel yr amlinellir yn Nhabl C:-

Prydau mewn Gwasanaethau Dydd i oedolion (ac eithrio pobl ag anableddau dysgu) - **£7.80**;

Byrbryd ganol dydd mewn Gwasanaethau Dydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu - **£3.30**;

Lluniaeth arall (te / coffi / teisen) mewn Gwasanaethau Dydd - **£1.85**.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Mae'r opsiynau a nodir yn gyson â dull cyffredinol y Cyngor o weithredu mewn perthynas â ffioedd a thaliadau mewn blynnyddoedd blaenorol.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae gan benderfyniadau ar ffioedd a thaliadau oblygiadau ariannol i gyllideb yr Awdurdod Lleol o ran incwm a dderbynnir a fforddiadwyedd taliadau a wneir yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

DD – Aseu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Amherthnasol
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Na
3	A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy:	Rydym wedi ymgynghori ag Awdurdodau Lleol eraill yn y rhanbarth fel rhan o'r broses pennu ffioedd.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	Amherthnasol
5	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Disgwylir cynnydd o 1.7% ym mudd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ym mis Ebrill 2025, a disgwylir cynnydd o 4.1% yn y pensiwn safonol a phensiwn newydd y wladwriaeth o Ebrill 2025. Mae'r cynnydd arfaethedig yn gyfartal â'r cynnydd ar gyfer chwyddiant ym mudd-daliadau gwladol y DWP ac mae'n is na'r cynnydd ar gyfer chwyddiant yn y pensiwn gwladol. Yr unig eithriad yw'r ffi atodol o £0.10 yr wythnos ar ffioedd Teleofal i gwrdd â chostau diweddarau systemau Technoleg Galw Gofal. Bydd y ffi atodol hon yn golygu cynnydd o £5.20 y flwyddyn yn y ffioedd, ac mae hyn yn uwch na'r cynnydd ar gyfer chwyddiant yn y budd-daliadau lles. Gwasanaeth dewisol yw hwn a gall defnyddwyr gwasanaeth ganslo'r gwasanaeth ar unrhyw adeg.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Fel uchod, mae'r cynnydd oherwydd chwyddiant a argymhellir yn y papur hwn ar gyfer gwasanaethau tebyg wrth debyg yn cyd-fynd â'r cynnydd o 1.7% ar gyfer chwyddiant mewn budd-daliadau gwladol, gan gynnwys Credyd Cynhwysol, a'r cynnydd o 4.1% yn y pensiwn gwladol. Fel yr uchod, yr unig eithriad i hyn yw'r ffi atodol o £0.10 yr wythnos ar ffioedd Teleofal i gwrdd â chostau uwchraddio systemau Technoleg Galw Gofal. Bydd y ffi atodol hon yn golygu cynnydd o £5.20 y flwyddyn yn y ffioedd, ac mae hyn yn uwch na chwyddiant mewn budd-daliadau lles. Gwasanaeth dewisol yw hwn, a gall defnyddwyr gwasanaeth ganslo'r gwasanaeth ar unrhyw adeg.
7	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Dim effaith ar y Gymraeg.

E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Amherthnasol
7	Sgriwtini	Amherthnasol
8	Aelodau Lleol	Amherthnasol
9	Unrhyw gyrff allanol / eraill	Amherthnasol
F - Atodiadau:		
Dim		
FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
Dim		